Gorffennaf 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog

Lluniais yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 19 o Atodlen 8 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, lle nodir y gallaf lunio adroddiad ar fater a ddaw i'm sylw wrth edrych ar gyfrifon sydd i'w harchwilio, os tybiaf y byddai tynnu sylw'r cyhoedd at y mater hwnnw o fudd i'r cyhoedd. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio'r adroddiad hwnnw, mae'n ofynnol i mi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gynnal fy archwiliad o gyfrifon Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, nodais rai materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn fy nhyb i, ac rwyf bellach yn tynnu sylw'r cyhoedd at y materion hynny drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru a gyflawnodd yr archwiliad hwn yn cynnwys Alison Butler a Dave Rees, o dan gyfarwyddyd John Herniman.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Canfyddiadau Manwl

Mae'r modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus 9

Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tanseilio hygrededd y broses gaffael 35

Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2016 yn tanseilio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni 50

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynodeb o gontractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates a'r cyflawniadau a nodwyd yn y contract 57

Atodiad 2 – Taliadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates am waith ymgynghori AD a gyflawnwyd rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mawrth 2016 (heb gynnwys TAW) 58

Atodiad 3 – Enghreifftiau lle torrwyd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 59

Atodiad 4 – Adolygiad Trysorlys Ei Mawrhydi o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus - Crynodeb o'r argymhellion 62

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Ar fyr-rybudd ar 1 Hydref 2014, gadawodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG fel prif weithredwr dros dro. O ganlyniad i hyn, gwelodd y Bwrdd Iechyd ostyngiad yng nghapasiti cyffredinol ei arweinyddiaeth AD.

2 Rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 31 Mawrth 2016, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i dri chontract ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD gyda chwmni preifat o'r enw RKC Associates Ltd (RKC Associates), er mwyn ceisio datrys y diffyg yng nghapasiti'r arweinyddiaeth AD. Perchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates yn ystod y cyfnod hwn oedd Ms Chana, a gafodd ei phenodi'n ddiweddarach yn Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd. Nodir hyd y contractau a'r cyflawniadau a bennwyd ar eu cyfer yn Atodiad 1. Terfynodd Ms Chana ei phenodiad fel cyfarwyddwr RKC Associates ar 28 Chwefror 2016.

3 Rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mawrth 2016, cyflawnodd Ms Chana 264.5 o ddiwrnodiau o waith ymgynghori AD o fewn y Bwrdd Iechyd, a thalodd y Bwrdd Iechyd £290,809+ TAW i RKC Associates am y gwasanaeth a ddarparwyd. Ceir dadansoddiad o'r taliadau i RKC Associates yn Atodiad 2.

4 Ar 30 Medi 2015, gadawodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, a oedd wedi bod ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG, ei swydd, a dechreuodd y Bwrdd Iechyd ymarfer recriwtio i benodi Cyfarwyddwr newydd. Ni lwyddwyd i wneud hynny, ar ôl i bob ymgeisydd ar y rhestr fer dynnu'n ôl am amryfal resymau.

5 Ym mis Ionawr 2016, ymgeisiodd Ms Chana am y swydd, er nad oedd y swydd wedi cael ei hail-hysbysebu. Trefnodd y Bwrdd Iechyd banel asesu i ystyried cais Ms Chana ac, yn dilyn cyfarfod y panel hwnnw, cynigiwyd y swydd i Ms Chana ar gontract blwyddyn cyfnod penodol ar gyflog blynyddol o £150,000. Gan fod y cyflog a gynigiwyd yn uwch na'r ystod yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chymeradwyo ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol y GIG, roedd y cynnig swydd yn amodol ar gymeradwyaeth o'r cyflog gan Lywodraeth Cymru. Ni chafwyd y gymeradwyaeth honno hyd 21 Ebrill 2016, ond dechreuodd Ms Chana ei swydd ar 5 Ebrill 2016. Gadawodd Ms Chana ei swydd yn y Bwrdd Iechyd o'i gwirfodd ddiwedd mis Tachwedd 2016.

6 Wrth archwilio cyfrifon y Bwrdd Iechyd, deuthum yn ymwybodol o'r taliadau a wnaed i RKC Associates am wasanaethau ymgynghori AD o dan y tri chontract ymgynghori y cyfeirir atynt ym mharagraff 2. Sylwais hefyd fod dau o'r contractau hyn wedi cael eu dyfarnu heb gynnal ymarfer tendro cystadleuol. Oherwydd maint taliadau'r contractau, a'r methiant i sicrhau cystadleuaeth ar eu cyfer, penderfynais gynnal adolygiad o'r broses a ddilynwyd i'w caffael, i'w dyfarnu a'u rheoli.

7 Yn ystod fy adolygiad, nodwyd sawl mater difrifol yn gysylltiedig â'r contractau ymgynghori a bu'n rhaid ehangu cwmpas yr adolygiad i archwilio'r broses gaffael ar gyfer y trydydd contract ymgynghori, a'r broses recriwtio a arweiniodd at benodi Ms Chana fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd.

8 Mae'n bwysig nodi na cheisiwyd, yn yr adolygiad hwn, asesu ansawdd y gwaith a gyflawnodd Ms Chana. Mae a wnelo fy nghasgliadau â gweithredoedd swyddogion a chyn-swyddogion y Bwrdd Iechyd, ac ni ddylid casglu na chyflawnodd Ms Chana ei gwaith hyd at safon briodol.

9 Yn ystod fy adolygiad archwilio, daeth Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, yn Gyfarwyddwr Rhaglen Weithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu. Fodd bynnag, cyfeirir yma at Ms Casey fel Prif Swyddog Gweithredu, gan mai dyna oedd ei rôl ar adeg y digwyddiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Gadawodd Ms Casey gyflogaeth y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2017.

10 Bu'r archwiliad yn hir a chymhleth. Bu'n hynod anodd cael darlun clir o'r ffeithiau'n gysylltiedig â'r materion dan sylw yn yr archwiliad. Roedd adroddiadau swyddogion a chyn-swyddogion y Bwrdd Iechyd yn gwrthdaro â'i gilydd ac yn anghyson, ac roedd tuedd i'r swyddogion hynny feio'r naill a'r llall am y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad. Ni ymdriniwyd â'm ceisiadau am wybodaeth mewn modd boddhaol, ac fe gafodd dogfennau nad oeddent yn bodoli, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf, eu cyflwyno sawl mis ar ôl i mi wneud cais amdanynt. Ni chynhaliodd y Bwrdd Iechyd drywydd archwilio digonol o'r modd y gwnaed y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, ac o ganlyniad i hynny rwyf yn amheus o hyd ynghylch y graddau y bu rhai swyddogion yn ymwneud â phenderfyniadau i ymrwymo i gontractau ag RKC Associates.

11 Drwy gydol yr archwiliad, mynnai Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd, Ms Casey, mai cyn Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, yr Athro Cairns, fu'n gyfrifol am negodi a chytuno i ddyfarnu contractau i RKC Associates. Roedd swyddogion eraill y Bwrdd Iechyd hefyd o'r farn ei fod wedi bod â rhan yn y penderfyniadau i ddyfarnu'r contractau. Yn ôl yr Athro Cairns, fodd bynnag, ni wnaeth negodi'r contractau na rhoi awdurdod i'w dyfarnu, ac nid wyf wedi gweld unrhyw ddogfennau sy'n tystio i'w ymglymiad. Gan hynny, nid oeddwn yn gallu casglu i ba raddau y bu'r Athro Cairns yn ymwneud â'r materion hyn.

12 Mae Ms Casey yn ystyried ei bod wedi cael ei beirniadu ar gam, gan ei bod o'r farn mai diffygion torfol, corfforaethol yw'r diffygion a nodwyd, ac mai'r Athro Cairns a wnaeth y penderfyniadau allweddol yn gysylltiedig â dyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 31, 47, 48, 145 a 146, mae'r dystiolaeth ddogfennol a oedd ar gael i mi yn dangos bod Ms Casey â rhan annatod yn y penderfyniadau hyn. Llofnododd Ms Casey ddau gontract ymgynghori rhwng y Bwrdd Iechyd ac RKC Associates nad oeddent wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd Iechyd. Wrth lofnodi'r dogfennau hyn, derbyniodd Ms Casey gyfrifoldeb am y penderfyniadau i ymrwymo i'r contractau, gan gynnwys bod yn gyfrifol am y modd yr aethpwyd ati i gaffael y gwasanaethau a roddwyd ar gontract. Roedd Ms Casey hefyd yn cymryd rhan mewn proses dendro ar gyfer trydydd contract, er ei bod eisoes yn defnyddio RKC Associates i gyflenwi'r contract a hysbysebwyd, cyn y broses gaffael ac wrth i'r broses honno fynd rhagddi.

13 Nodir canfyddiadau manwl fy archwiliad yn yr adroddiad hwn. Dyma fy mhrif gasgliadau:

a Mae'r modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus:

- ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'i weithdrefnau caffael ei hun wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, felly gallai'r contractau, a hefyd y taliadau a wnaed oddi tanynt, fod yn anghyfreithlon;
- torrwyd rheolau caffael cyhoeddus wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates;
- ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar RKC Associates, ac yn sgil hynny achoswyd risg ariannol a risg i enw da'r Bwrdd Iechyd, heb fod angen;
- roedd yr Bwrdd Iechyd yn torri ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog pan gytunodd ar gontractau ag RKC Associates, a oedd wedi cael eu drafftio gan berchennog RKC Associates;

- penododd y Bwrdd Iechyd berchennog RKC Associates i gyflenwi prosiectau ymgynghori, ond fe'i defnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd fel aelod uwch o staff, ac y mae'n bosib ei fod felly wedi gor-hawlio £58,162 mewn TAW;
- fel y swyddog a lofnododd y contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, yr oedd dyletswydd ar Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod proses briodol wedi'i dilyn. Mae ei methiant i wneud hynny wedi creu amheuon ynghylch a gafodd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau hyn ei seilio'n gyfan gwbl ar ystyriaethau dilys; ac
- ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni gwaith monitro effeithiol ar ei gontractau ag RKC Associates, ac fe gafwyd taliadau a oedd yn uwch na gwerth y contractau a threuliau heb eu dilysu yn gysylltiedig â chontractau.

b Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tanseilio hygrededd y broses gaffael:

- cychwynnodd y Bwrdd Iechyd broses gaffael ar gyfer contract a gwahodd ac arfarnu tendrau ar gyfer y contract hwnnw, er ei fod eisoes wedi ymrwymo ag RKC Associates cyn dechrau'r broses dendro;
- amharwyd ar gadernid a hygrededd y broses gaffael a hysbysebwyd mewn sawl ffordd allweddol, ac fe gymerodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd ran yn y broses er ei bod yn gwybod bod RKC Associates eisoes wedi dechrau gwaith o dan y contract cyn cychwyn y broses gaffael;
- ni chadwodd yr Adran Gaffael ddogfennau digonol ynghylch y broses gaffael; ac
- oedodd y Bwrdd Iechyd cyn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd, gan achosi i'r Bwrdd Iechyd orfod gwario heb fod angen ar gontract ymgynghori.

c Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni:

- nid yw'n glir pam bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu mynd rhagddo â phroses i recriwtio i swydd ar lefel y Bwrdd, gydag ond un ymgeisydd nad oedd wedi gwneud cais am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol;
- nid oedd cofnod da o'r broses recriwtio, ac o ganlyniad i hyn nid yw'n glir pryd y trodd y sawl a oedd wedi bod yn goruchwylio'r ymarfer recriwtio yn ymgeisydd;
- tanseiliwyd uniondeb y broses recriwtio gan fod gan yr unig ymgeisydd fynediad at rai o'r cwestiynau asesu cyn cael ei chyfweld ar gyfer y swydd; ac
- roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd a'i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ynghylch y penodiad yn anghywir, yn anghyflawn ac yn anghyson.

# Canfyddiadau manwl

## Mae'r modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i gaffael a rheoli contractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates yn llawer is na'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus

### Ni chydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd â'i weithdrefnau caffael ei hun wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 ac ym mis Mehefin 2015, felly gallai'r contractau, a hefyd y taliadau a wnaed oddi tanynt, fod yn anghyfreithlon

**Roedd y penderfyniad i ddyfarnu contract gwerth £114,625 + TAW i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd**

14 Ym mis Tachwedd 2014, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gontract â chwmni preifat, RKC Associates, ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2014. Roedd y contract ar ffurf dogfen 'cynnig am gefnogaeth ymgynghori' a anfonwyd gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, at Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, ar 22 Hydref 2014. Er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cael hyd i gopi wedi'i lofnodi o'r ddogfen hon, mae negeseuon e-bost o'r un cyfnod rhwng y Bwrdd Iechyd a Ms Chana yn cadarnhau mai'r telerau a nodwyd yn y ddogfen gynnig oedd telerau cytunedig y contract, (ynghyd â chyfraddau cytunedig y contract ar gyfer treuliau, a nodwyd yn y negeseuon e-bost hynny). Mae Ms Casey hefyd yn cofio llofnodi'r contract.

15 Yn y ddogfen gynnig, nodwyd y byddai RKC Associates yn darparu'r canlynol i'r Bwrdd Iechyd:

- 'Cefnogaeth lefel uchel dros dro i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a DT, gan adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 1 Rhagfyr 2014, i'w hadnewyddu drwy gyd-gytundeb;
- mae angen cynnal adolygiadau penodol o ddau faes uchel eu blaenoriaeth yn y Gyfarwyddiaeth (Y Gweithlu a DT), gan anelu i gynyddu eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd:
  - y broses recriwtio; a'r
  - broses rheoli presenoldeb.

Gallai meysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth godi yn dilyn adolygiad cychwynnol. Cynhelir adolygiad o'r rhain drwy gytundeb.'

16 Nodir yn y ddogfen gynnig y byddai'r gwasanaethau sydd eu hangen yn cael eu darparu mewn 3 cham fel a ganlyn:

Cam 1: Dadansoddi, adolygu a diagnosis (Rhagfyr 2014 hyd Ionawr 2015)

Cam 2: Gweithdai cynlluniau gweithredu a chymeradwyo cynlluniau (Ionawr 2015 hyd Chwefror 2015)

Cam 3: Gweithredu cynlluniau (Mawrth 2015 hyd Mai 2015).

17 Nodai'r ddogfen hefyd mai Ms Chana 'yw'r prif ymgynghorydd a bennwyd i ddarparu cefnogaeth lefel uwch dros dro fel ymgynghorydd rheoli hunangyflogedig' ond 'y gallai RKC Associates ddarparu ymgynghorwyr eraill dros dro fel bo'r angen.' Nodwyd mai'r gyfradd a oedd yn daladwy o dan y contract i RKC Associates am y gwasanaethau a ddarparwyd oedd £1,000 y diwrnod, plws 'treuliau rhesymol' + TAW.

18 Rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mai 2015, talodd y Bwrdd Iechyd £114,625 + TAW i RKC Associates am 104 diwrnod o waith ymgynghori AD a gyflawnwyd gan Ms Chana a threuliau'n gysylltiedig â'r contract (er mai dyddiad dechrau'r contract oedd 1 Rhagfyr 2014).

19 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yn datgan bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Adam Cairns (Yr Athro Cairns) wedi gofyn iddi: 'jyst gael rhywun i mewn' i wneud gwaith llanw yn Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol tra bo Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd yn absennol ar secondiad o'i swydd. Ar sail y cyfarwyddyd hwn, cysylltodd Ms Casey â Ms Chana, y bu'n gweithio â hi'n flaenorol mewn dau sefydliad arall o fewn y GIG. Mynegodd Ms Chana ddiddordeb mewn cyflawni rôl bosibl o fewn y Bwrdd Iechyd. Wedi hynny, trefnodd Ms Casey gyfarfod rhwng Ms Chana a Chyfarwyddwr Nyrsio y Bwrdd Iechyd, a chyfarfod ar wahân rhwng Ms Chana a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, yr Athro Cairns. Roedd Ms Casey yn bresennol yn y naill gyfarfod a'r llall. Mae Ms Casey yn cofio mai pwrpas y cyfarfodydd oedd i'r Bwrdd Iechyd 'amlinellu natur y rôl yr oedd ei hangen, i ystyried a allai [Ms Chana] fod yn ymgeisydd addas, ac i [Ms Chana] ystyried a allai'r rôl fod o ddiddordeb iddi'. Mae Ms Casey yn datgan mai: 'casgliad y cyfarfodydd oedd y byddai'r naill ochr a'r llall yn ystyried y mater ymhellach cyn dod i unrhyw benderfyniad.' Mae Ms Chana wedi dweud wrthyf fod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi gofyn yn y cyfarfod iddi gyflwyno cynnig ar gyfer unrhyw ymrwymiad posibl gan y Bwrdd Iechyd.

### Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir

20 Mae'n rhaid i gyrff y GIG weithredu mewn modd teg a thryloyw wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gallu dangos bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd, neu os ydynt yn penderfynu gwyro oddi wrth bolisi, fod rheswm da dros wneud hynny. O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), mae'n ofynnol i gyrff GIG Cymru fabwysiadu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) er mwyn rheoli eu trafodion a'u busnes ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi SFIs enghreifftiol i gyrff GIG Cymru, ac fe fabwysiadodd y Bwrdd Iechyd yr SFIs hyn. Mae'r SFIs, ynghyd â'r Rheolau Sefydlog (SOs), cynllun penderfyniadau a neilltuir i'r Bwrdd a Chynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir yn creu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae SFIs y Bwrdd Iechyd yn pennu'r rheolau a ddilynir ganddo wrth gaffael. Yn y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir nodir y sawl y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r grym iddo/iddynt wneud penderfyniadau ynghylch caffael a chontractau. Os na fydd corff y GIG yn cydymffurfio â'r SFIs, yr SOs, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, heb fod rheswm da am hynny, gallai hynny olygu bod penderfyniadau a wneir a unrhyw wariant cysylltiedig yn groes i'r gyfraith.

21 Ni ddilynodd y Bwrdd Iechyd ofynion ei SFIs pan ymrwymodd i gontract ag RKC Associates am wasanaethau ymgynghori ym mis Tachwedd 2014. Yn ôl yr SFIs: 'dylid cynnal tendr cystadleuol i gaffael unrhyw waith, nwyddau a gwasanaethau gwerth mwy na £25,000, heb gynnwys TAW'. (SFIs, atodlen 1, para 4.1) Nodir hefyd: 'y dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i isafswm o bedwar cwmni gyflwyno tendr am gontractau ac iddynt werth rhwng £25,000 a'r trothwy ar y pryd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd'. (SFIs, atodlen 1, para 5.1) Ni chynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer y contract, yr oedd ei werth yn £114,625 + TAW, ac ni ofynnwyd am dendrau gan gyflenwyr posibl.

22 Nodir yn yr SFIs amgylchiadau eithriadol pan na fydd angen cynnal ymarfer tendro cystadleuol, hy, lle na allai ond un cwmni neu gontractwr gyflenwi'r gwasanaeth, neu lle bydd angen eitem neu wasanaeth priodol o natur neilltuol. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff y Bwrdd Iechyd ddyfarnu contract heb gynnal cystadleuaeth, drwy weithredu tendr unigol. Yr oedd nifer o gyflenwyr a allai fod wedi darparu'r gwasanaeth a ddarparwyd gan RKC Associates, ac nid oedd angen eitem neu wasanaeth priodol. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gaffael y gwasanaeth drwy weithredu tendr unigol ychwaith. Yn ôl yr SFIs: 'ni cheir ond defnyddio gweithred tendr sengl yn dilyn cyflwyniad ffurfiol a chyda chaniatâd ysgrifenedig clir y Prif

Weithredwr, neu ddirprwy dynodedig, ac ar ôl rhoi ystyriaeth ddigonol i'r gofynion caffael. Dylai'r Prif Weithredwr gadw cofnod manwl. Mae'n rhaid adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio ynghylch pob gweithred tendr sengl ac estyniad ar gontract.' O ran y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014:

- ni chyflwynwyd cais ffurfiol yn gofyn am weithred tendr sengl;
- nid oedd unrhyw ganiatâd ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr neu ddirprwy dynodedig yn cymeradwyo gweithred tendr sengl;
- nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth sy'n dangos ystyriaeth o ofynion caffael, ac ni ofynnwyd i'r Adran Gaffael am gyngor ynghylch gofynion caffael.
- ni chadwodd y Prif Weithredwr unrhyw gofnod o weithred tendr sengl yn gysylltiedig â'r contract; ac
- ni adroddwyd wrth Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd am ddyfarnu'r contract fel gweithred tendr sengl.

23 Ar ben hynny, ni weithredodd y Bwrdd Iechyd yn unol â'i Gynllun Dirprwyo a'i Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, a nodai fod awdurdod i gaffael a gweithdrefnau contractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau dros £1,000 wedi'u dirprwyo i Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd (ar wahân i eithriadau penodedig nad ydynt yn berthnasol i'r achos hwn). Caffaelwyd gwasanaethau RKC Associates heb gyfeirio at Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd, ac rwyf o'r farn fod y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer caffael hwn wedi gweithredu heb awdurdod y Bwrdd Iechyd.

24 Rwyf felly o'r farn fod y contract wedi'i ddyfarnu yn groes i SFIs, Cynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd. Rwyf hefyd o'r farn fod y contract hwn wedi'i ddyfarnu'n groes i ddarpariaethau eraill yn SFIs y Bwrdd Iechyd. Nodir y rhain yn Atodiad 3. Fel y nodwyd ym mharagraff 20, gallai methu cydymffurfio â gofynion SFIs, y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, heb fod rheswm da am hynny, olygu bod penderfyniadau a wneir ac unrhyw wariant cysylltiedig yn anghyfreithlon. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi esbonio wrthyf pam na ddilynwyd y broses briodol.

## Penderfyniad i ymrwymo i gontract ag RKC Associates

25 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflwyno unrhyw ddogfennau o'r cyfnod dan sylw sy'n cofnodi sut a pham y penderfynwyd ymrwymo i gontract ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 heb ofyn am dendrau cystadleuol. Mae Adran Gaffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) (yr Adran Gaffael) yn rheoli ymarferion caffael ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd yn datgan na ofynnwyd i'r Adran Gaffael gynghori neu gymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn y contract a gynigiwyd.

26 Yn ôl yr Athro Cairns, er iddo ef a Ms Casey gwrdd â Ms Chana ar 16 Hydref 2014, pwrpas y cyfarfod hwnnw oedd asesu a oedd gan Ms Chana y sgiliau a'r profiad gofynnol i gyflawni'r rôl gefnogol yr oedd ei hangen yn y Bwrdd Iechyd. Ei dybiaeth ef oedd mai Ms Casey a roddodd gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i RKC Associates, ac yn ôl ei atgof ef, bu'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yn ymwneud â'r mater o safbwynt cyllid. Disgwyliad yr Athro Cairns oedd y byddai unrhyw benderfyniad i ddyfarnu contract yn unol â threfniadau cyllid a chaffael y Bwrdd Iechyd.

27 Serch hynny, mae Ms Casey yn mynnu mai'r Athro Cairns a wnaeth y penderfyniad i ddefnyddio gwasanaeth Ms Chana drwy ei chwmni, RKC Associates, a bod yr Athro Cairns wedi cytuno ar y telerau ar gyfer hynny mewn cyfarfod. Cyfarfu'r Athro Cairns â Ms Chana ar eiddo'r Bwrdd Iechyd ar 11 Tachwedd 2014. Dywedodd Ms Casey ei bod wedi meddwl y byddai'r Athro Cairns wedi sicrhau bod y broses briodol yn cael ei dilyn er mwyn caffael gwasanaeth RKC Associates. Fodd bynnag, nid yw'r honiad hwn yn gyson â'r dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael. Ar 6 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd at Ms Chana i'w hysbysu bod y contract a gynigiwyd 'yn hollol iawn ac yn dderbyniol.' Ymddengys felly fod telerau ymrwymiad Ms Chana wedi'u cytuno cyn cyfarfod Ms Chana â'r Athro Cairns ar 11 Tachwedd 2014.

28 Mae Ms Casey hefyd wedi tynnu sylw fy archwilwyr at y ffaith ei bod wedi anfon drafft o'r contract at y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd, a oedd yn gyfrifol am y portffolio caffael. Cafodd wybod yn ddiweddarach gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid fod y contract yn 'iawn i'w lofnodi.' Mae hi hefyd yn datgan 'na chrybwyllwyd yr angen i gynnal proses gaffael/SFI ar unrhyw bryd yn ystod unrhyw ran o'r broses hon.'

29 Fodd bynnag, mae'r cyn Gyfarwyddwr Cyllid yn cofio ei bod wedi holi Ms Casey ynghylch sut y cytunwyd i ddyfarnu contract i RKC Associates, a bod Ms Casey wedi dweud wrthi fod y contract 'wedi'i gytuno gan [y Prif Weithredwr ar y pryd] ac mai ond geiriad y contract yr oedd angen ei adolygu.' Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd yn cofio ei bod wedi gwirio hyn gyda'r Athro Cairns, a gadarnhaodd ei fod wedi cytuno i ddyfarnu'r contract. Ni wnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd gadw cofnod ysgrifenedig o'r sgyrsiau hyn.

30 Mae'r Athro Cairns yn mynnu na wnaeth negodi'r contractau na rhoi awdurdod i'w dyfarnu, ac nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth ddogfennol o'i ymglymiad. Gan hynny, nid wyf wedi gallu casglu i ba raddau y bu'r Athro Cairns yn ymwneud â'r materion hyn.

31 Waeth pwy a gytunodd y gellid dyfarnu contract i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, erys y ffaith bod y contract wedi'i ddyfarnu'n groes i reolau caffael y Bwrdd Iechyd. Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth ddogfennol sydd ar gael i mi yn dangos bod gan Ms Casey ran annatod yn y broses o negodi telerau'r contract ag RKC Associates, a'i bod wedi llofnodi'r contract ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae fy nghasgliad yn seiliedig ar y canlynol:

- derbyniodd Ms Casey y cynnig contract gan Ms Chana drwy e-bost ar 22 Hydref 2014, ond chwe diwrnod ar ôl y cyfarfod y cyfeirir ato ym mharagraff 26. Fel Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd, dylai Ms Casey Dylai fod wedi bod yn ymwybodol na ellid gofyn am dendrau a'u hasesu fel sy'n ofynnol yn SFIs y Bwrdd Iechyd o fewn y cyfnod hwn o amser. Llofnododd Ms Casey y contract er hynny.
- er bod Ms Casey yn honni bod yr Athro Cairns wedi cytuno i delerau'r ymrwymiad â Ms Chana, nodir yn yr e-bost cyflwyno i'r cynnig contract a anfonwyd gan Ms Chana at Ms Casey ar 22 Hydref 2014: 'rwy'n atodi fy nghynnig drafft sy'n adlewyrchu ein sgwrs dros y ffôn ddydd Llun yr wythnos hon [20 Hydref 2014]'. Rwyf felly o'r farn y bu Ms Casey yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o gytuno ar delerau ymrwymiad Ms Chana.
- yn ôl negeseuon e-bost o'r un cyfnod rhwng Ms Casey ac Adran Gyllid y Bwrdd Iechyd, roedd staff yr Adran Gyllid o'r farn mai Ms Casey oedd i benderfynu ynghylch y penderfyniad i ymrwymo i gontract. Er enghraifft, ar 4 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd at Ms Casey yn nodi 'ei bod hi'n ymddangos yn iawn i lofnodi'r contract'.
- ar 4 Tachwedd 2014, ysgrifennodd Ms Casey at Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd yn nodi bod Ms Chana ar gael am ddeuddydd yr wythnos ganlynol 'i'w hymsefydlu' ac y byddai Ms Chana wedyn yn 'dechrau gweithio 4 diwrnod yr wythnos yn ffurfiol o 1 Rhagfyr.' Mae'r neges e-bost hon yn arwydd cryf bod y penderfyniad i apwyntio RKC Associates wedi'i wneud cyn i'r Athro Cairns gyfarfod â Ms Chana ar 1 Tachwedd 2014. Roedd y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2014 rhwng Ms Chana a'r Athro Cairns yn rhan o gyfnod ymsefydlu cytunedig Ms Chana yn y Bwrdd Iechyd, a derbyniodd Ms Chana dal am ddiwrnodiau ymsefydlu 11 ac 12 Tachwedd 2014 yn rhan o'r contract ymgynghori.

- dywedodd Ms Chana Dywedodd mai'r Prif Weithredwr a gytunodd ar y telerau i'w hymrwymo, ond esboniodd wedyn ei bod yn ystyried iddo wneud hynny 'drwy ei gasgliad o adroddiadau uniongyrchol.' Deallaf fod hyn yn golygu nad oedd y Prif Weithredwr ar y pryd yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafod na chytuno ar delerau'r ymrwymiad â Ms Chana.
- ar 12 Mai 2016, dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd wrthyf, mewn ymateb i'm hymholiadau archwilio, fod Ms Casey wedi cytuno ar delerau'r contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014.

32 Gan fynnu mai rhan fach oedd ganddi wrth benderfynu ynghylch y contract, tynnodd Ms Casey sylw at y ffaith ei bod wedi anfon e-bost at y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ar 4 Tachwedd 2014 yn dweud bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns 'wedi crybwyll heddiw ei fod yn awyddus i [Ms Chana] ddechrau cyn gynted ag sy'n bosibl. Deallaf ei bod a gael am ddau ddiwrnod wythnos nesaf i'w hymsefydlu, ac wedyn i ddechrau gweithio'n ffurfiol 4 diwrnod yr wythnos o 1 Rhagfyr. Deallaf ei bod yn bwriadu gweithio'n hyblyg, ac mae hyn yn golygu gweithio gartref rai diwrnodiau.' Fodd bynnag, ar adeg cynnal y cyfarfod hwn, roedd telerau'r contract eisoes wedi'u cytuno yn amodol ar gadarnhau rhai manylion ariannol yn gysylltiedig â threuliau contract a geiriad anfonebau.

33 Mae Ms Casey yn mynnu nad yw hi 'erioed wedi gwadu na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau caffael, [ac] nad oedd yn ymwybodol y dylid bod wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau hynny ar yr adegau perthnasol.' Dywedodd wrth fy archwilwyr iddi ddod yn ymwybodol o'r diffyg cydymffurfio â rheolau caffael mewn cyfweliad â'm cynrychiolwyr ym mis Rhagfyr 2016.

34 Serch hynny, wrth lofnodi'r contract, derbyniodd Ms Casey gyfrifoldeb am y penderfyniadau i ymrwymo i gontract, a oedd y cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau a roddwyd ar gontract wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd Iechyd. Nid wyf yn derbyn esboniad Ms Casey, sef nad oedd yn ymwybodol ar y pryd bod angen cydymffurfio â rheolau caffael. Fel cyfarwyddwr gweithredol y Bwrdd Iechyd, dylai fod wedi bod yn ymwybodol o'r gofynion, ac os nad oedd yn ymwybodol o'r gofynion, dylai fod wedi gofyn a gyngor oddi wrth Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd.

**Roedd y penderfyniad i ddyfarnu contract gwerth rhwng £110,888 a £112,078 + TAW i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynllun Dirprwyo ac Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd**

35 Ar 1 Mehefin 2015, anfonwyd llythyr at Ms Chana oddi wrth Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, yn datgan 'Ysgrifennaf i gadarnhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dymuno ymrwymo i gontract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith sydd ei angen er mwyn cyflenwi rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Bydd hyn yn weithredol am gyfnod o chwe mis o 9 Mehefin 2015, gyda hyd y contract yn amodol ar benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol parhaol. Dyma fydd y cyflawniadau disgwyliedig yn ystod y cyfnod hwn.

- Cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu
- Gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch
- Gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses recriwtio.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynnig.'

36 Roedd gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch a gwella'r broses recriwtio yn gyflawniadau a nodwyd o dan y contract blaenorol ddyfarnwyd gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, ac o dan delerau'r contract hwnnw roedd yn ofynnol cwblhau'r cyflawniadau hynny erbyn mis Mai 2015 (gweler paragraff 16). Roedd gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch a gwella'r broses recriwtio hefyd yn gyflawniadau a nodwyd mewn contract pellach y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 (gweler paragraff 116).

37 Roedd y llythyr, dyddiedig 1 Mehefin 2015, wedi'i lofnodi'n electronig â sgan o lofnod Ms Casey. Yn ôl Ms Casey, yr Adran AD a luniodd y llythyr ar gyfarwyddyd unigolyn anhysbys tra'r oedd ar ei gwyliau, ac nid oedd 'yn rhan o'r cytundeb i gynnig contract newydd i [Ms Chana].' Dywed hefyd y byddai ei Chynorthwyydd Gweithredol 'wedi cael cais i gyflwyno ei llofnod electronig gan fy mod ar....wyliau'. Ar ddychwelyd i'r gwaith ar 15 Mehefin 2015, mae Ms Casey yn mynnu bod Ms Chana eisoes wedi dechrau gweithio ar yr ymrwymiad newydd a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015, a'i bod yn 'tybio bod popeth mewn trefn'. Gan hynny, llofnododd y contract y cyfeirir ato yn y paragraff nesaf.

38 Mater a allai fod yn ddifrifol iawn yw'r awgrym bod unigolyn neu unigolion anhysbys wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid cyhoeddi llythyr yn enw Ms Casey heb ei chaniatâd, er mwyn sicrhau ymrwymiad i gontract pellach ag RKC Associates. Anfonodd Cynorthwyydd Gweithredol Ms Casey y llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015 drwy e-bost at Ms Chana ar 1 Mehefin 2015, a nodwyd yn yr e-bost cyflwyno 'atodir llythyr oddi wrth [Ms Casey].' Yn ôl y cofnodion AD a gefais gan y Bwrdd Iechyd, ni chychwynnodd Ms Casey ei gwyliau hyd 2 Mehefin 2015, sef y diwrnod ar ôl anfon y llythyr. Anfonodd Ms Chana ateb yn uniongyrchol at Ms Casey ar 3 Mehefin 2015, gan atodi ei chynnig contract, a chan nodi 'Annwyl [Ms Casey], diolch yn fawr am eich llythyr. Atodaf fy nghynnig yn unol â'ch cais. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.' Os nad oedd wedi rhoi awdurdod i anfon y llythyr, nid wyf yn sicr pam na chododd Ms Casey bryder ynghylch defnydd diawdurdod o'i llofnod ar dderbyn yr e-bost hwn. Ar 15 Mehefin 2015, llofnododd Ms Casey gontract ag RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD i'r Bwrdd Iechyd am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 9 Mehefin 2015. Mae'r contract ar ffurf 'cynnig am gefnogaeth ymgynghori' wedi'i ddrafftio gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates. Mae'r contract yn gyson â'r llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2015 y cyfeirir ato uchod.

39 Nodir yn y contract y bydd RKC Associates yn darparu'r canlynol i'r Bwrdd Iechyd:

- 'Cefnogaeth lefel uchel dros dro i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a DT, gan adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar 9 Mehefin 2015;
- Dau faes uchel eu blaenoriaeth:
  - gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch; a
  - gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses recriwtio.

Gallai meysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth godi. Cyflawnir y rhain drwy gytundeb.'

40 Yn ôl y ddogfen gynnig, byddai perchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, yn cyflawni'r gwaith ymgynghori, ac yn derbyn £1,000 y dydd, plws 'treuliau rhesymol' + TAW.

41 Talodd y Bwrdd Iechyd £101,000 + TAW i RKC Associates am 101 diwrnod o waith ymgynghori a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd rhwng 9 Mehefin 2015 a 4 Rhagfyr 2015. Yn ogystal â hyn, talwyd treuliau rhwng £9,888 ac £11,078 + TAW yn gysylltiedig â'r contract i RKC Associates. Ceir ansicrwydd ynghylch yr union ffigur, gan fod un anfoneb a gyflwynwyd gan RKC Associates yn trafod dau gyfnod contract.

42 Ym mis Mehefin 2015, arhosodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar secondiad, a deallaf mai'r bwriad wrth ddyfarnu contract pellach i RKC Associates oedd darparu cefnogaeth ymgynghori barhaus i Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol dros gyfnod y secondiad.

43 Nid yw'n glir i mi a fwriadwyd i gontract mis Mehefin 2015 fod yn gontract newydd neu'n estyniad ar y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014. Yn y naill achos neu'r llall, ystyriaf fod y contract neu'r estyniad hwn wedi'i ddyfarnu'n groes i SFIs y Bwrdd Iechyd. Fel y nodir ym mharagraff 21, roedd yr SFIs yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymarfer tendro cystadleuol ar gyfer pob contract dros £25,000, (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn berthnasol yn yr achos hwn – gweler paragraff 22). Ni cheisiwyd cynnal cystadleuaeth ar gyfer dyfarnu'r contract, ac ni ofynnwyd i Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd ychwaith am gyngor ynghylch caffael neu ddyfarnu contractau.

44 Mae paragraff 10.8 o SFIs y Bwrdd Iechyd yn datgan y canlynol: 'yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofyniad cyfreithiol ac amodau contract cytunedig, caniateir ymestyn contract unwaith ar yr amod nad yw'r gost ychwanegol yn uwch na 50% o werth gwreiddiol y contract, hyd at uchafswm o £75,000 heb gynnwys TAW'. Os bwriadwyd i'r contract fod yn estyniad ar y contract presennol, roedd caniatáu'r estyniad hwnnw'n groes i SFIs y Bwrdd Iechyd, gan fod gwerth yr estyniad dros £75,000 ac yn fwy na 50% o werth contract Tachwedd 2014. Rwyf yn cydnabod nad oes diben dadlau ynghylch hynny gan fod contract Tachwedd 2014 wedi'i ddyfarnu heb gystadleuaeth.

45 Nid yw swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi gallu rhoi unrhyw esboniad pam y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd y contract i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 heb ofyn am dendrau cystadleuol, fel sy'n ofynnol yn SFIs y Bwrdd Iechyd.

46 Ar ben hynny, ni weithredodd y Bwrdd Iechyd yn unol â'i Gynllun Dirprwyo a'i Fframwaith Ymreolaeth a Enillir, a nodai fod awdurdod i gaffael a gweithdrefnau contractio ar gyfer nwyddau a gwasanaethau dros £1,000 wedi'u dirprwyo i Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd (ar wahân i eithriadau penodedig nad ydynt yn berthnasol i'r achos hwn). Caffaelwyd gwasanaethau RKC heb gyfeirio at Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd, ac rwyf o'r farn fod y rhai a gymerodd ran yn yr ymarfer caffael hwn wedi gweithredu heb awdurdod y Bwrdd Iechyd.

47 Er bod y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yn mynnu mai'r Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, a benderfynodd ddyfarnu'r contract i RKC Associates, nid oedd yn gallu rhoi unrhyw ddogfennau i mi o'r cyfnod dan sylw i gefnogi'r honiad hwnnw. Nid wyf yn derbyn honiad Ms Casey, sef nad oedd 'â rhan yn y cytundeb i gynnig contract newydd i [Ms Chana].' Wrth lofnodi'r contract ag RKC Associates, yr oedd Ms Casey, drwy ddiffiniad, â rhan yn y cytundeb. Yn ogystal â hynny, fel y swyddog awdurdodi, yr oed dyletswydd arni i sicrhau bod y gwasanaethau a roddir ar gontract wedi'u caffael yn unol â rheolau caffael y Bwrdd Iechyd, fel y'u nodir yn ei SFIs. Ni lwyddodd i wneud hynny.

48 Nid yw safbwynt Ms Casey wedi fy argyhoeddi bod y llythyr a anfonwyd at Ms Chana wedi'i anfon heb iddi wybod am hynny, neu heb iddi gydsynio i hynny. Beth bynnag fo'r achos, dylai Ms Casey fod wedi sicrhau bod proses briodol yn cael ei dilyn, fel llofnodai'r Bwrdd Iechyd i'r contract.

49 Waeth sut a phryd y daethpwyd i benderfyniad i ymrwymo i gontract ag RKC Associates, llofnododd Ms Casey y contract hwnnw. Dyfarnwyd y contract yn groes i SFIs y Bwrdd Iechyd, ac nid oedd gan y rhai a gaffaelodd wasanaethau RKC Associates yr awdurdod i wneud hynny o dan Gynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad i hyn, ni all y Bwrdd Iechyd ddangos bod y contract wedi'i ddyfarnu yn gyfreithlon ac mewn modd teg a thryloyw.

## Torrwyd rheolau caffael cyhoeddus wrth ddyfarnu contractau ymgynghori i RKC Associates

50 Mae’r Bwrdd Iechyd, fel corff cyhoeddus, yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a chyn mis Chwefror 2015, yr oedd yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006. Bwriad y rheoliadau yw sicrhau, pan fo’r weithred o gaffael o fewn eu cwmpas, y cydymffurfir â’r egwyddorion canlynol wrth ddyfarnu contract:

- triniaeth gyfartal;
- tryloywder;
- dim gwahaniaethu; a
- chymesuredd.

51 Yn ôl SFIs y Bwrdd Iechyd: ‘Ceir cyfarwyddebau’r UE a rheoliadau’r DU ...sydd yn trafod pob rhan o’r maes caffael, ac mae’r Cyfarwyddebau hyn yn pennu trothwyon lle daw gofynion cyfreithiol a phrotocolau caffael arbennig ac ymestynnol yn berthnasol. Mae’r holl Gyfarwyddwyr a’u staff yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyfarwyddebau hynny wedi’u deall a’u gweithredu’n llawn.’

52 Ym mis Tachwedd 2014, dyfarnodd y Bwrdd Iechyd gontract i RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod o chwe mis. Ym mis Tachwedd 2015, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gontract pellach ag RKC Associates ar gyfer darparu gwasanaethau ymgynghori AD am gyfnod pellach o chwe mis. Ar 14 Rhagfyr 2015, ailymrwymodd y Bwrdd Iechyd ag RKC Associates am gyfnod pellach o dri mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Ni ofynnodd y Bwrdd Iechyd i unrhyw un gystadlu am y cyfleoedd contract hyn cyn ymrwymo i ddefnyddio RKC Associates, (gwahoddodd y Bwrdd Iechyd dendrwyr i gystadlu am drydydd cyfnod y contract ar 23 Rhagfyr 2015, fel y nodir ym mharagraffau 110 i 132, ond yn fy marn i ymddengys fod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymrwymo RKC Associates ar 14 Rhagfyr 2015).

53 Pan fydd contract am wasanaethau oddi mewn i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus , mae’n rhaid i’r awdurdod sy’n contractio gyflawni’r rhwymedigaethau hanfodol a ganlyn:

- cyhoeddi hysbysiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) ar ffurf ragnodedig, yn hysbysebu’r contract;
- defnyddio gweithdrefn ddyfarnu benodedig, a chydymffurfio â gofynion cysylltiedig ynghylch meini prawf dethol a dyfarnu;

- cydymffurfio â gofynion adrodd yn dilyn penderfyniad i ddyfarnu contract; a
- chydymffurfio ag egwyddorion tryloywder, triniaeth gyfartal, peidio gwahaniaethu a chymesuredd.

54 Mae gofynion caffael cyhoeddus yn gymhleth, ac yn ôl y cyngor cyfreithiol a roddwyd i mi mae contract ar gyfer gwasanaethau oddi mewn i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus os bodlonir yr amodau canlynol:

- bod y gwasanaethau a ddarperir yn perthyn i gategorïau penodedig; a
- bod yr awdurdod contractio yn amcangyfrif yn rhesymol, ar ddechrau'r ymarfer caffael, y bydd y cyfanswm sy'n daladwy o dan y contract yn uwch na'r trothwy gwerth perthnasol; ac na cheir unrhyw eithriadau cyfreithiol (ac fe'm cynghorir nad oes eithriadau o'r fath yn berthnasol yn yr achos hwn).

55 Y cyngor a roddwyd i mi oedd mai gwasanaethau ymgynghori ym maes rheoli oedd y disgrifiad gorau o'r gwasanaethau yr oedd RKC Associates yn bwriadu eu darparu, a olygai eu bod mewn egwyddor yn ddarostyngedig i gwmpas llawn y gyfundrefn caffael cyhoeddus. Ar yr adeg berthnasol £111,676 oedd y trothwy gwerth perthnasol lle'r oedd gofynion llawn y rheoliadau yn dod i rym. Pan na fydd awdurdod sy'n contractio yn rhoi amcangyfrif o werth tebygol contract ar gyfer gwasanaeth sydd yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn caffael cyhoeddus, mae hynny ynddo'i hyn yn golygu bod rheoliadau caffael cyhoeddus wedi'u torri. Nid roddodd y Bwrdd Iechyd amcangyfrif o werth perthnasol contractau Tachwedd 2014 a Mehefin 2015, ac ni wnaeth ychwaith ystyried a ellid adnewyddu'r contractau hynny.

56 Er y gellir gwneud rhyw ymgais i gyfrifo'r hyn a fyddai wedi bod yn amcangyfrif rhesymol, mater i'r Bwrdd Iechyd yw hyn yn y pen draw, ac ni allaf fabwysiadu safbwynt swyddogol yn ei gylch. Fodd bynnag, pe bai'r Bwrdd Iechyd wedi llunio amcangyfrif o'r gwerth, byddai hynny wedi dangos bod y gwerth hwnnw'n uwch na'r trothwy gwerth perthnasol. Dylai'r Bwrdd Iechyd felly fod wedi caffael y cytundebau yn unol â Rheoliadau 2015. Ar ben hynny, ac yn ôl y cyngor a roddwyd i mi, gallai'r broses gaffael a gynhaliwyd yn gysylltiedig â'r contract a ddyfarnwyd ym mis Chwefror 2016 fod wedi bod yn groes i Reoliadau 2015, gan nad oed y rhybudd ynglŷn â'r contract a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben, gan nad oedd yn hysbysebu contract a oedd ar gael mewn gwirionedd, fel y nodir ym mharagraffau 110 i 122.

57 Fel y nodwyd uchod, mae rheoliadau caffael cyhoeddus yn gymhleth. Ni fyddwn felly'n disgwyl i'r rhan fwyaf o swyddogion y Bwrdd Iechyd ddeall y rheolau'n fanwl. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i swyddogion ar lefel uwch o fewn y Bwrdd Iechyd fod yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â'r rheolau ac, os oeddent yn ansicr a oedd y rheolau hynny'n berthnasol, i ofyn am gyngor oddi wrth Bennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd. Ni ofynnwyd am unrhyw gyngor i'r perwyl hwnnw. Mae'r Pennaeth Caffael yn cytuno bod y symiau dan sylw yn uwch na'r trothwyon gwerth perthnasol, ac y dylid bod wedi dilyn proses gaffael lawn yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y caffaeliadau.

58 Yn sgil methiant y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'r rheoliadau wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, achoswyd risg i enw da'r Bwrdd Iechyd a risg y byddai darpar dendrwyr ac/neu'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd camau yn erbyn y Bwrdd Iechyd.

## Methodd y Bwrdd Iechyd â chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar RKC Associates

59 Wrth ystyried dyfarnu contractau i gyflenwyr allanol, mae'n hanfodol i gyrff cyhoeddus ddeall pwy y maent yn cynnal eu busnes â hwy. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan gyflenwir posibl y capasiti a'r gallu i gyflenwi'r contract, eu bod yn sefydlog yn ariannol a bod ganddynt enw da. Er mwyn canfod a yw darpar gyflenwyr yn addas i gyflenwi contractau cyhoeddus, bydd cyrff cyhoeddus yn cynnal gwiriadau a elwir yn wiriadau 'diwydrwydd dyladwy'. Pan na chynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy, bydd y sefydliad yn agored i risg ariannol a risg i enw da.

60 Yn ôl SFIs y Bwrdd Iechyd: 'y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am gadarnhau bod pob cwmni ar y rhestr tendro yn gadarn yn ariannol ac yn gymwys yn broffesiynol drwy broses cyn-gymhwyso/fetio ariannol a gyflawnir gan swyddog caffael a chanddo gymwysterau a phrofiad addas'.

61 Ar gyfer contractau sylweddol, gan gynnwys pob contract sy'n uwch na throthwyon caffael cyhoeddus, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau diwydrwydd dyladwy drwy ofyn i dendrwyr posibl lenwi Holiaduron Cyn Cymhwyso (HCCau) Mae'r holiaduron hyn wedi'u dylunio i ganfod cyflenwyr nad ydynt yn bodloni gofynion craidd y sefydliad. Os nad yw cyflenwr yn bodloni'r gofynion, ni ystyrir dyfarnu contract iddo.

62 Mae HCC y Bwrdd Iechyd yn gofyn i gyflenwyr ateb cwestiynau manwl yn y meysydd a ganlyn:

- gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad/cwmni;
- capasiti a gallu;
- sefyllfa ariannol/economaidd;
- trefniadau rheoli/llywodraethu;
- cyfle cyfartal;
- cynaliadwyedd;
- iechyd a diogelwch;
- yswiriant; a
- digwyddiadau ac anghydfodau.

63 Ni ofynnwyd i RKC Associates lenwi HCCau cyn dyfarnu contractau iddo ym mis Tachwedd a mis Mehefin 2015. Ar ben hynny, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i mi i ddangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas ag RKC Associates na Ms Chana.

64 Mae'r methiant i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol yn destun pryder. Pe bai'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwiriadau cyflym ar RKC Associates, byddai wedi canfod bod y cwmni wedi cael ei gorffori yn Nhŷ'r Cwmnïau ar 7 Tachwedd 2014, bedwar diwrnod cyn i Ms Chana, perchennog RKC Associates, ddechrau gweithio o dan y contract, a phythefnos ar ôl i Ms Chana anfon ei chynnig contract i'r Bwrdd Iechyd ac arno'r pennawd 'RKC Associates Ltd'.

65 Pan ddechreuodd Ms Chana ei gwaith o dan y contract, roedd RKC Associates yn gwmni newydd ei ffurfio, nid oedd wedi cyflawni unrhyw waith ymgynghori blaenorol ac nid oedd ganddo unrhyw hanes o safbwynt ariannol neu lywodraethu.

66 Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth i mi ei fod wedi ceisio cadarnhau'r canlynol:

- Bod gan RKC Associates yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac indemniad proffesiynol;
- Bod Ms Chana wedi trefnu i dalu treth incwm ac yswiriant gwladol (gweler paragraffau 77 i 85); a
- Bod gan Ms Chana eirdaon boddhaol o gyflogaeth flaenorol.

67 Ystyriaf fod methiant y Bwrdd Iechyd i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy priodol ar RKC Associates a Ms Chana wedi achosi risg ddiangen i'r Bwrdd Iechyd.

68 Yn ôl Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd rôl yr Adran Gyllid mewn perthynas â chontract Tachwedd 2014 oedd adolygu a chyflwyno sylwadau ar ddrafft y contract o safbwynt cyllid. Fel y nodir ym mharagraff 29, dywed Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd fod Ms Casey wedi dweud wrthi nad oedd ond angen 'adolygu geiriad y contract.' Cynhaliodd yr Adran Gyllid y dasg hon ar gais y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey. Mae Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd yn mynnu nad oedd gan yr Adran Gyllid unrhyw ran yn y broses o gaffael y gwasanaeth ymgynghori, ac na chynhaliodd unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ychwaith.

69 Ms Casey oedd y swyddog a lofnododd y contract ag RKC Associates ar ran y Bwrdd Iechyd, ac roedd dyletswydd arni fel y swyddog awdurdodi i sicrhau bod yr holl wiriadau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol wedi'u cynnal.

## Roedd y Bwrdd Iechyd yn torri ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog pan gytunodd ar gontractau ag RKC Associates, a oedd wedi cael eu drafftio gan berchennog RKC Associates, ac wrth wneud hynny achosodd risg ddiangen i'r Bwrdd Iechyd

70 Mae'n arfer safonol i gyrff cyhoeddus sy'n ymrwymo i gontractau â chyflenwyr gwasanaethau nodi'r telerau a'r amodau'n ffurfiol mewn ysgrifen. Mae contractau ysgrifenedig yn rhoi sicrwydd i'r naill barti a'r llall ac yn fan cyfeirio cytunedig os cyfyd anghydfod contractiol. Dylai contract gwasanaeth ysgrifenedig drafod materion fel:

- yr hyn a gytunwyd o ran pris a hyd y contract;
- manyleb y gwasanaethau sydd i'w cyflenwi;
- rhwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill y cyflenwr;
- trefniadau monitro'r contract;
- trefniadau ar gyfer datrys anghydfod; a
- darpariaethau canslo.

71 Yn ôl SFIs y Bwrdd Iechyd: ‘I gyd-fynd â phob gwahoddiad i dendro dylid cyflwyno telerau ac amodau safonol y Bwrdd Iechyd ar gyfer contractau, a’r sail ar gyfer gweithrediadau busnes y Bwrdd Iechyd â’r contractwr. Lle bo’n briodol, gall uwch swyddogion caffael lunio contract wedi’i gynllunio’n arbennig, ac ynddo gyngor cyfreithiol priodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyllid.’ Nodir hefyd yn yr SFIs ‘ym mhob dogfen gontract dylid cynnwys cymal i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd hawl i ganslo’r contract ac adennill swm unrhyw golled sy’n deillio o’r weithred honno o ganslo gan y contractwr, os yw’r tendrwr wedi cydgynllwynio ag eraill wrth baratoi ei dendr, neu os yw wedi cynnig, rhoi, neu gytuno i roi unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr.’

72 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu contract safonedig GIG Cymru ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Pe bai’r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio’r ddogfen gontract safonol hon wrth ymrwymo i gontract ag RKC Associates, byddai wedi sicrhau bod gofynion yr SFI ynghylch contract ysgrifenedig wedi’u bodloni.

### Contract Tachwedd 2014

73 Ym mis Tachwedd 2014, ymrwymodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd, Ms Casey, gan weithredu ar ran y Bwrdd Iechyd, i gontract ag RKC Associates ar gyfer darparu contract ymgynghori chwe mis o hyd. Fel y nodwyd ym mharagraffau 14 i 17, mae’r contract ar ffurf dogfen ‘cynnig am gefnogaeth ymgynghori’ a anfonwyd gan berchennog ac unig-gyfarwyddwr RKC Associates, Ms Chana, at Brif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd, Ms Casey, ar 22 Hydref 2014, er nad yw’r Bwrdd Iechyd na Ms Chana wedi gallu cyflwyno copi wedi’i lofnodi o’r ddogfen i mi.

74 Nid yw dogfen y contract yn cynnwys telerau ac amodau safonol y Bwrdd Iechyd, ac rwyf o’r farn fod y contract yr ymrwymodd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, iddo ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 yn groes i SFIs y Bwrdd Iechyd ac yn achosi risg ddiangen i’r Bwrdd Iechyd am y rhesymau a ganlyn:

- Nid oedd y contract yn cynnwys manyleb fanwl o’r gwasanaethau i’w cyflenwi, safonau ansawdd, rhwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill y cyflenwr, gan gynnwys ymdriniaeth â threth, trefniadau monitro’r contract, trefniadau datrys anghydfod a darpariaethau canslo.

- Nodai'r contract: 'o dan yr ymgyngoreiaeth hon, fy nghyfrifoldeb yw darparu'r cyngor a'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn yn ddidwyll. Mae derbyn y contract yn fy indemnio rhag unrhyw gamau cyfreithiol (ac eithrio atebolrwydd troseddol) a allai gael eu cymryd yn y dyfodol yn gysylltiedig ag unrhyw gyngor neu wasanaeth a ddarparwyd, ac unrhyw ganlyniadau a allai ddigwydd, neu beidio digwydd, yn sgil hynny. Bydd y partïon dan sylw neu yr effeithir arnynt gan yr ymgyngoreiaeth yn cael gwybod am hyn, ac yn barti i'r indemniad hwn yn sgil cymryd rhan yn yr ymgyngoreiaeth a ddisgrifir uchod.' Yn fy marn i, ni ddylai'r Bwrdd Iechyd fyth fod wedi cytuno i'r amod hwn. Yr oedd yn indemnio RKC Associates rhag i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau cyfreithiol pe bai'r ymgynghorydd yn methu â chyflawni'r gwaith, yn perfformio'n is na'r safon neu'n esgeulus.

75 Ar 22 Hydref 2014, cafodd Ms Casey sgwrs â Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd (a oedd hefyd yn Arweinydd Gweithredol y Bwrdd Iechyd ym maes caffael), ac yn dilyn y sgwrs honno anfonodd y contract a gynigiwyd drwy e-bost at Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd. Nodir yn yr e-bost 'dyma'r cynnig wedi'i atodi. A yw'n iawn i'w lofnodi?' Wedyn anfonodd y Cyfarwyddwr Cyllid ar y pryd y contract drafft at aelodau staff Cyllid y Bwrdd Iechyd i'w ystyried.

76 Er i staff Cyllid y Bwrdd Iechyd godi pwyntiau penodol ynghylch telerau'r contract, siom oedd canfod na hysbyswyd y Prif Swyddog Gweithredu fod y ffurf a gynigiwyd ar gyfer y contract yn annerbyniol. Ar 4 Tachwedd 2014, cyngor y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid i Ms Casey oedd bod y contract a gynigiwyd yn: 'edrych yn iawn i'w lofnodi', ond y byddai'n fuddiol cael rheolau ynghylch yr hyn yr oedd 'treuliau rhesymol' yn ei gynrychioli.

### Contract Mehefin 2015

77 Ar 15 Mehefin 2015, gan weithredu ar ran y Bwrdd Iechyd, llofnododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, gontract pellach ag RKC Associates ar gyfer darparu contract ymgynghori arall chwe mis o hyd. Dogfen wedi'i drafftio gan Ms Chana o RKC Associates oedd y contract hwn unwaith eto. Fel yn achos y contract o fis Tachwedd 2014, nid oedd y contract a ddrafftiwyd gan Ms Chana yn gyson â chontract safonedig y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, ac yr oedd yn ddiffygiol am yr un rhesymau a roddwyd ym mharagraff 74.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi darparu darparu contract arall eto i mi a oedd yn trafod yr un gwasanaeth a'r cyfnod a'r un a lofnodwyd ar 15 Mehefin 2015. Llofnodwyd y contract arall hwn gan Ms Casey ar ran y Bwrdd Iechyd ar 9 Gorffennaf 2015, a chan Ms Chana ar ran RKC Associates ar 15 Gorffennaf 2015. Lluniwyd y contract dyddiedig 9 Gorffennaf 2015 gan Bennaeth Llywodraethu Gweithlu y Bwrdd Iechyd. Mae telerau contract Gorffennaf 2015 yn llawer manylach na'r

telerau a nodwyd yng nghontract Mehefin 2015, ac maent yn cynnwys darpariaethau lle'r oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu gofyn i Ms Chana ddarparu manylion ei threfniadau ar gyfer treth ac yswiriant gwladol.

79 Ymddengys fod yr ail gontract wedi'i lunio er mwyn sicrhau bod trefniadau contractio'r Bwrdd Iechyd ag RKC Associates yn cydymffurfio ag argymhellion 'Adolygiad o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus' gan Drysorlys EM (adolygiad Trysorlys EM). Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu argymhellion adolygiad Trysorlys EM ac roedd hi'n ofynnol i gyrff GIG Cymru gydymffurfio â'r argymhellion hynny o fis Rhagfyr 2013.

80 Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- 'dylai aelodau bwrdd ac uwch swyddogion a chanddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol fod ar gyflogres y sefydliad, oni cheir amgylchiadau eithriadol - a phryd hynny dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r trefniadau - ac ni ddylai eithriadau felly fodoli am gyfnod hwy na chwe mis; a
- dylai ymrwymiadau hwy na chwe mis, ar gyfradd ddyddiol o fwy na £220, gynnwys darpariaethau contract sydd yn galluogi'r adran i geisio sicrwydd ynghylch ymrwymiadau treth incwm ac NICS y sawl y mae'n ymrwymo i gontract ag ef/hi - a therfynu'r contract os na roddir y sicrwydd hwnnw.'

81 Ar 27 Chwefror 2015, derbyniodd holl brif weithredwyr y GIG, gan gynnwys Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen i gydymffurfio â'r argymhellion hyn. Anfonodd yr Athro Cairns yr ohebiaeth at Ms Chana gan ofyn: 'Beth y mae angen i ni ei wneud yn eich cylch chi.' Ymatebodd Ms Chana i'r Athro Cairns, gan gopïo Ms Casey, drwy ddweud ei bod hi a Ms Casey 'wedi trafod hyn a chytuno i barhau â'r drafodaeth ar ôl i mi ddychwelyd i'r swyddfa ochr yn ochr â'r [Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid] a chymryd unrhyw gamau cytunedig.'

82 Er gwaethaf hyn, nid oedd y contract ag RKC Associates a lofnodwyd gan Ms Casey ar 15 Mehefin 2015 yn cynnwys darpariaethau fyddai'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i ofyn i Ms Chana gadarnhau ei hymrwymiadau o ran treth incwm ac yswiriant gwladol.

83 Yn ôl Pennaeth Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd, lluniodd dempled o gontract ar gyfer gwasanaethau o'i ben a'i bastwn ei hun ar ôl bod yn bresennol mewn seminar lle cyfeiriwyd at yr angen i gydymffurfio ag adolygiad Trysorlys EM. Ar ôl dod yn ymwybodol o'r ffaith y byddai Ms Chana yn cael ei hail-ymrwymo, roedd o'r farn y dylid rhoi'r contract a luniwyd ganddo ef iddi er mwyn sicrhau bod telerau'r contract yn cydymffurfio ag argymhellion adolygiad Trysorlys EM.

84 Ar 19 Mehefin 2015, ysgrifennodd Pennaeth Llywodraethu'r Gweithlu at Ms Casey yn datgan 'yn rhan o'r gofyniad i gydymffurfio â rheolau Trysorlys EM o ran rhwymedigaethau treth contractwyr, bydd angen i ni gyflwyno contract newydd [i Ms Chana]. Rwyf wedi drafftio'r ddogfen sydd wedi'i hatodi (y byddwn yn ei defnyddio fel templed ar gyfer pob contractwr arall).'

85 Roedd y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Gorffennaf 2015 yn cyflwyno darpariaethau i alluogi'r Bwrdd Iechyd i geisio sicrwydd oddi wrth Ms Chana ynghylch ei threfniadau treth ac yswiriant gwladol. Yn fy marn i, methodd y Bwrdd Iechyd â chydymffurfio â'i SFIs ei hun wrth ymrwymo i gontractau ag RKC Associates a oedd wedi'u drafftio gan Ms Chana ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, ac wrth wneud hynny achosodd risg ddiangen i'r Bwrdd Iechyd.

## Penododd y Bwrdd Iechyd berchennog RKC Associates i gyflenwi prosiectau ymgynghori, ond fe'i defnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd fel aelod uwch o staff, ac y mae'n bosib ei fod felly wedi gor-hawlio £58,162 mewn TAW

86 Rhoddwyd contractau i RKC Associates ddarparu gwasanaethau ymgynghori i'r Bwrdd Iechyd, wedi i Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd fynd ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG ar 1 Hydref 2014, a hynny heb fawr ddim rhybudd. O ganlyniad i hyn, gwelodd y Bwrdd Iechyd ostyngiad yng nghapasiti cyffredinol ei arweinyddiaeth AD.

87 Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gontractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, mis Mehefin 2015 (contract oedd hwn a ddisodlwyd gan gontract a wnaed ym mis Gorffennaf 2015), a mis Chwefror 2016 (gweler paragraffau 110 i 153 am fanylion contract mis Chwefror 2016). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trin y contractau hyn fel contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ymgynghori. Cafodd yr holl waith a oedd yn ofynnol o dan y contractau hyn ei gyflawni gan berchennog RKC Associates, Ms Chana. Fel y nodwyd yn Atodiad 1, nodir ym mhob contract y gwasanaethau ymgynghori y byddai'n ofynnol i Ms Chana eu cyflenwi. Ceir cysylltiadau agos iawn rhwng y cyflawniadau a bennwyd ar gyfer pob contract. Dyma'r tair elfen allweddol ym mhob contract:

- gwella prosesau recriwtio'r Bwrdd Iechyd;
- lleihau cyfraddau absenoldeb salwch; a
- darparu cefnogaeth dros dro lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.

88 Ar 22 Hydref 2014, anfonodd Ms Casey gopi o’r contract a gynigiwyd ag RKC Associates i’w adolygu gan Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd ar y pryd. Mynegodd y staff o fewn yr Adran Gyllid bryder ynghylch a oedd a wnelo’r contract â chyflenwi staff neu wasanaethau ymgynghori. Roedd hwn yn wahaniaeth pwysig, oherwydd pe bai’r contract yn gontract ar gyfer cyflenwi staff, ni fyddai’r Bwrdd Iechyd yn gallu adennill unrhyw TAW a godwyd gan RKC Associates, ond pe bai’r contract yn gontract am wasanaethau ymgynghori, byddai’r Bwrdd Iechyd yn gallu adennill unrhyw TAW a dalwyd oddi wrth CaThEM.

89 Gweithredodd staff yr Adran Gyllid yn y modd priodol a gofyn am gyngor ynghylch hyn oddi wrth gynghorydd TAW allanol y Bwrdd Iechyd, a ddywedodd fod y defnydd o’r ymadrodd ‘dros dro’ yn y contract a gynigiwyd yn anghynorthwyol am y rhesymau a ganlyn: ‘mae CaThEM bob amser yn ystyried hynny fel arwydd bod staff yn cael eu cyflenwi. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, y teimlad yw bod ‘dros dro’ yn golygu gwaith am gyfnod byr neu gyfnod penodol yn hytrach na chyflawni rôl bresennol. Mae’n ymddangos fel y bydd Ms Chana yn cael ei ‘chyflogi’ i ddarparu astudiaeth weithiol o’r prosesau hyn a chynghori ynghylch newidiadau. Y mae dechrau a diwedd pendant i’r broses hon. Fel gwiriad terfynol, gellid sicrhau nad yw’r rôl y mae [Ms Chana] yn ei chyflawni yn swydd barhaus. Os nad hynny’n wir, a dyna yw fy amheuaeth i, byddwn yn hapus i chi adennill y TAW a godwyd am y cyflenwad hwn...ond byddwn yn trefnu i wella geiriad yr anfonebau a anfonir gan [Ms Chana] i roi disgrifiad gwell o’r hyn sy’n cael ei gyflenwi mewn gwirionedd. Pe bai modd i chi ofyn iddi osgoi defnyddio’r ymadrodd ‘dros dro’, byddai hynny’n help, oherwydd mae’n ymddangos i mi nad llenwi swydd dros dro a wneir, ond gwaith ymgynghori gan gwblhau astudiaeth o brosesau.’’

90 Rwyf o’r farn fod y cyngor a gafodd y Bwrdd Iechyd yn ddoeth. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni ddefnyddiodd y Bwrdd Iechyd Ms Chana fel ymgynghorydd a gyflawnai brosiectau penodol wedi’u diffinio yn y contract yn unig, ond yn hytrach fel cyflogai a gyflawnai ystod eang o swyddogaethau’n gysylltiedig â chyflogai, nad oeddent wedi’u nodi yn y contract. Dyma rai o’m rhesymau dros ddod i’r casgliad hwn:

- Wrth ymgeisio am rôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2016, cyflwynodd Ms Chana ei curriculum vitae (CV) i’w ystyried gan banel asesu recriwtio y Bwrdd Iechyd. Yn ôl y CV, roedd Ms Chana wedi bod yn cyflawni rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd ers mis Rhagfyr 2014. Yn y CV, nodir amrywiaeth eang o gyfrifoldebau arweinyddol a rheolaethol yr oedd Ms Chana wedi bod yn eu cyflawni yn ystod y cyfnod ers Rhagfyr 2014, gan gynnwys: ‘arwain swyddogaeth y Gweithlu a DT (150 aelod o staff), gan eglurhau atebolrwydd, rolau a gwelliannau ystwyth’.

- Yn nogfennau mewnol y Bwrdd Iechyd ei hun ar gyfer y cyfnod dan sylw, gan gynnwys cofnodion y Bwrdd, cofnodir mai Ms Chana oedd Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithlu a Datblygu Trefniadol neu Gyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol y Bwrdd Iechyd. Nodai'r dogfennau hyn hefyd fod Ms Chana yn cyflawni ystod eang o gyfrifoldebau y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn ei chontractau ar gyfer gwasanaethau ymgynghori.
- Fel y nodir ym mharagraff 89, roedd cynghorydd TAW y Bwrdd Iechyd wedi cynghori'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2014 nad oedd hi'n fuddiol defnyddio'r ymadrodd 'dros dro' yn y contract a gynigiwyd, a hynny am y rhesymau canlynol: 'mae CaThEM bob amser yn ystyried hynny fel arwydd bod staff yn cael eu cyflenwi. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, y teimlad yw bod 'dros dro' yn golygu gwaith am gyfnod byr neu gyfnod penodol yn hytrach na chyflawni rôl bresennol'. Er gwaethaf hyn, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gytundebau contract pellach ym mis Mehefin 2015 a Chwefror 2016 a nodai y byddai'n ofynnol i Ms Chana ddarparu cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol (gweler Atodiad 1) ac mewn llythyrau a gyfeiriwyd oddi wrth Ms Casey i Ms Chana, dyddiedig 1 Mehefin 2015 (gweler paragraff 35) ac 14 Rhagfyr 2015 (gweler paragraff 116) nodwyd: 'Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dymuno ymrwymo i gontract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith llanw dros dro sydd ei angen ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.' Rwyf felly o'r farn fod Ms Chana wedi'i phenodi fel 'cyflenwad o staff'.

91 Mae Ms Chana wedi dweud wrth fy archwilwyr ei bod wedi cael ei defnyddio i gyflawni'r tasgau penodol a nodwyd yn ei chontractau ymgynghori, a'i bod wedi cyfarfod â Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, a ofynnodd iddi gyflawni gwaith ar 'feysydd eraill perthnasol â blaenoriaeth.' Mae Ms Chana wedi nodi enghreifftiau o'r gweithgareddau y gofynnwyd iddi eu cyflawni, ac mae hyn yn atgyfnerthu fy safbwynt bod Ms Chana mewn gwirionedd yn gweithio fel cyflogai i'r Bwrdd Iechyd

92 I ddibenion rheolau caffael cyhoeddus, casglaf ym mharagraffau 50 i 58 mai pwrpas contractau'r Bwrdd Iechyd ag RKC Associates oedd darparu contractau ymgynghori ym maes rheoli. Fodd bynnag, i ddibenion rheoliadau treth, rwyf o'r farn y dylid bod wedi ystyried Ms Chana yn benodai sector cyhoeddus oddi ar y gyflogres, oherwydd cwmpas a natur y gweithgareddau a gyflawnir. Mae hyn yn golygu y gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi adennill cyfanswm gwallus o £58,162 mewn TAW oddi wrth CaThEM ar daliadau a wnaed i RKC Associates ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2014 a Mawrth 2016. Er gwaethaf y casgliad hwn, ni ystyriaf fod y cytundebau yn gontractau cyflogaeth i dibenion eu heithrio yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2016 a 2015.

## Fel y swyddog a lofnododd y contractau ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, roedd gan Brif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd ddyletswydd i sicrhau bod proses briodol wedi'i dilyn. Mae'r methiant i wneud hynny wedi creu amheuon ynghylch a gafodd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau hyn ei seilio'n gyfan gwbl ar ystyriaethau dilys

93 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl i swyddogion cyhoeddus arddangos safonau ymddygiad uchel wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu 'Polisi Fframwaith Safonau Ymddygiad gan gynnwys Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd' (y Fframwaith Safonau Ymddygiad). Mae'r Fframwaith Safonau Ymddygiad yn nodi'r canlynol: 'mae'r Bwrdd yn disgwyl i bob Aelod Annibynnol a Chyflogai arfer safonau ymddygiad corfforaethol a phersonol uchel, yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth mai anghenion cleifion ddylai gael y sylw pennaf'.

94 Mae'r Fframwaith Safonau Ymddygiad yn pennu canllawiau i staff ac aelodau annibynnol y Bwrdd Iechyd ynghylch rheoli a chofnodi achosion posib o wrthdaro buddiannau. Mae'r datganiadau canlynol yn arbennig o berthnasol, sef y dylai aelodau staff:

- 'ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant perthnasol pan fydd achos posibl o wrthdaro buddiannau yn codi yn ystod prosesau caffael, ee yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mewn cyfarfodydd pwyllgor;
- arsylwi Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a pholisïau a gweithdrefnau caffael y Bwrdd Iechyd;
- os gofynnir i'r cyflogai gymryd rhan yn y broses gaffael, gofynnir iddo ailgadarnhau ei fuddiannau a chadarnhau nad oes unrhyw fuddiannau eraill perthnasol y dylid eu datgan;
- cofiwch fod yr angen i ddatgan buddiant hefyd yn cynnwys buddiannau perthnasau achos, a ffrindiau o bosib; a
- datgan unrhyw fuddiannau perthnasol (gan gynnwys unrhyw beth) a allai achosi gwrthdaro buddiannau posibl.'

95 Yn Haf/Hydref 2014, fel y nodwyd ym mharagraff 19, cysylltodd Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd, Ms Casey, â chyn-weithiwr, Ms Chana a'i hysbysu bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried caffael cefnogaeth dros dro ar gyfer Adran y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, tra bo Cyfarwyddwr yr Adran ar secondiad. Arweiniodd y cysylltiad hwn yn y pen draw at ddyfarnu tri chontract ymgynghori gwerth £290,809 + TAW i RKC Associates, cwmni Ms Chana.

96 Pan gysylltodd â Ms Chana, mae Ms Casey mynnu bod amryw o flynyddoedd wedi mynd heibio ers gweithio gyda hi, ac mai perthynas cwbl broffesiynol oedd rhyngddynt. Ar ben hynny, er iddi gyflwyno Ms Chana i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, nid oedd ganddi unrhyw ran yn y penderfyniad i ddyfarnu contract i gwmni Ms Chana, RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, ac nid oedd ganddi ychwaith ran yn y broses o negodi telerau'r ymrwymiad. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 1, dengys y dogfennau sydd ar gael fod gan Ms Casey ran annatod yn y broses o negodi telerau'r ymrwymiad, a'i bod wedi llofnodi'r contract ar ran y Bwrdd Iechyd.

97 O ystyried ei chysylltiad â Ms Chana yn y gorffennol, dylai Ms Casey fod wedi datgan y cysylltiad hwnnw'n ffurfiol drwy systemau ffurfiol y Bwrdd Iechyd ar gyfer datgan buddiannau posib a gwirioneddol, a dylai fod wedi gofyn am gyngor ynghylch a oedd hi'n briodol iddi fod ag unrhyw rôl yn y prosesau caffael neu gontractio. Ni ddatganodd Ms Casey yr hyn a allai gael ei ystyried yn fuddiant perthnasol.

98 Bu Ms Casey yn agored gyda'i chydweithwyr ynglŷn â'i chysylltiad blaenorol â Ms Chana, ac mae Cyfarwyddwr Nyrsio, cyn Brif Weithredwr a chyn Gyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd wedi rhoi cadarnhad i mi ynghylch hynny. Pe bai'r mater wedi'i ddatgan, rwyf hefyd yn cydnabod y gellid bod wedi casglu bod y buddiant yn ddigon dibwys fel na fyddai'n rhaid gwahardd Ms Casey rhag cymryd rhan mewn unrhyw broses gaffael a chontractio fyddai'n cael ei chynnal yn unol ag SFIs y Bwrdd Iechyd.

99 Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, llofnododd Ms Casey gontractau sylweddol ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 heb gyflawni'r canlynol:

- gofyn am gyngor gan Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd;
- sicrhau bod y contract wedi'i gaffael yn unol ag SFIs a Chynllun Dirprwyo a Fframwaith Ymreolaeth a Enillir y Bwrdd Iechyd; a
- sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cynnal yn gysylltiedig ag RKC Associates a Ms Chana.

100 Pe bai'r gwasanaethau hyn wedi'u caffael drwy Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd, byddai wedi bod yn ofynnol i Ms Casey lenwi ffurflenni datgan buddiant cyn cymryd rhan yn y broses gaffael. Fodd bynnag, gan na ddilynwyd y broses briodol, ni ofynnwyd i Ms Casey lenwi ffurflenni datgan buddiant yn gysylltiedig â chaffael RKC Associates, ac ni wnaeth hynny.

101 Yn sgil methiant Ms Casey i sicrhau bod y contractau a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014, a Mehefin 2015 wedi'u caffael drwy brosesau priodol, a hefyd ei chysylltiad blaenorol â Ms Chana, na chafodd ei ddatgan yn ffurfiol, ceir amheuon a oedd y penderfyniad i ddyfarnu contract ymgynghori i gwmni Ms Chana yn seiliedig ar ystyriaethau cwbl ddilys.

## Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni gwaith monitro effeithiol ar ei gontractau ag RKC Associates, ac fe gafwyd taliadau a oedd yn uwch na gwerth y contractau a threuliau heb eu dilysu yn gysylltiedig â chontractau

### Roedd y swm a dalwyd i RKC Associates yn uwch na gwerth cytunedig y contract, ond ni chytunwyd ar unrhyw amrywiad i'r contract, ac ni adroddwyd y gorwariant

102 Pan fydd cyrff cyhoeddus yn dyfarnu contractau am wasanaethau i gyflenwyr allanol, mae'n hanfodol sefydlu trefniadau monitro ariannol er mwyn sicrhau:

- bod y symiau a delir i gyflenwr yn unol â thelerau'r contract cytunedig;
- y cytunir yn ffurfiol ar unrhyw amrywiadau rhwng y telerau cytunedig, ac yr adroddir am hynny; ac
- y creffir ar bob swm a godir gan y cyflenwr o dan y contract er mwyn sicrhau eu bod yn dreuliau dilys o dan y contract.

103 Cyflwynodd RKC Associates anfonebau i'r Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â gwaith ymgynghori a gyflawnwyd i'r Bwrdd Iechyd rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2016. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn gysylltiedig â thri chontract ymgynghori.

104 O dan delerau'r contractau, contractiwyd RKC Associates i ddarparu uchafswm o 252 o ddiwrnodiau o wasanaeth ymgynghori ar gyfradd o £1,000 + TAW bob dydd, gyda chyfanswm gwerth contract o £252,000 + TAW. Cyflwynodd RKC Associates anfonebau i'r Bwrdd Iechyd am ddarparu 264.5 o ddiwrnodiau o wasanaeth ymgynghori ar gyfradd o £1,000 + TAW, sef cyfanswm o £264,500 + TAW. Roedd hyn tua £12,500 yn uwch na'r symiau a gytunwyd yn y contractau.

105 Cyflwynodd Ms Chana anfonebau i Ms Casey am y gwaith a gyflawnwyd. Cymeradwyodd hithau 'r anfonebau a'u hanfon yn eu tro i'w talu gan Adran Gyllid y Bwrdd Iechyd.

106 Er nad oes gennyf reswm i amau na chyflawnodd Ms Chana y diwrnodiau ymgynghori yr anfonwyd anfoneb amdanynt i'r Bwrdd Iechyd, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu unrhyw dogfennau ataf i gymeradwyo amrywio telerau'r contractau nac yn adrodd ar y gorwariant yn gysylltiedig â'r contractau a'r rhesymau am hynny.

**Derbyniodd RKC Associates £26,309 + TAW mewn taliadau yn gysylltiedig â threuliau a achoswyd wrth gyflawni ei gontractau ymgynghori gyda'r Bwrdd Iechyd, ond ni cheisiodd y Bwrdd Iechyd wirio dilysrwydd y treuliau hyn o dan delerau'r contract**

107 Roedd telerau'r contractau rhwng RKC Associates a'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys darpariaeth i RKC Associates hawlio ad-daliad o dreuliau a achoswyd wrth gyflawni'r contractau, fel cost teithiau trên, llety yng Nghaerdydd a ffioedd tacsi. Ym mis Hydref 2014, cytunodd Adran Gyllid y Bwrdd Iechyd a r ddiwygiadau i'r contract a gynigiwyd gan Ms Chana yn nodi'r cyfraddau uchafswm ar gyfer y treuliau y byddai Ms Chana yn gallu eu hawlio. Yn y contractau pellach a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 a mis Chwefror 2016, nodwyd y byddai Ms Chana yn cael hawlio yr un cyfraddau a chyflogeion y Bwrdd Iechyd. .

108 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2016, ad-dalwyd £26,309 + TAW i RKC Associates am dreuliau a achoswyd. Nododd Ms Chana swm y treuliau yr oedd yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd eu had-dalu ar holl anfonebau RKC Associates. Fodd bynnag, nid oedd yr anfonebau'n rhoi manylion y treuliau na'r cyfraddau a oedd yn cael eu hawlio. Ar ben hynny, ni chyflwynwyd unrhyw dderbynebau nac anfonebau yn gysylltiedig â'r treuliau oedd yn cael eu hawlio. Dywed Ms Chana ei bod wedi cadw'r anfonebau hynny ac wedi cynnig eu darparu i'r Bwrdd Iechyd, ond na ofynnwyd amdanynt ar unrhyw bryd. Er gwaethaf y diffyg manylion i gefnogi ceisiadau Ms Chana i ad-dalu treuliau, awdurdododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yr anfonebau i'w talu a'u hanfon ymlaen i Adran Gyllid y Bwrdd Iechyd er mwyn prosesu'r taliadau.

109 Ni chafodd Ms Casey weld unrhyw ddogfennau cefnogol wrth awdurdodi'r ceisiadau am dreuliau, ac ymddengys na wnaed unrhyw ymdrech i gadarnhau bod y treuliau a oedd yn cael eu hawlio yn dreuliau dilys o dan y contract. Yn ddiweddarach, adenillodd y Bwrdd Iechyd y TAW oddi wrth CaThEM mewn perthynas â'r treuliau hyn. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi natur gwariant, nac unrhyw beth i ddangos a oedd y symiau a hawliwyd yn cynnwys neu heb gynnwys TAW, ni all y Bwrdd Iechyd ddangos bod ganddo hawl i adennill TAW.

## Roedd y modd y dyfarnwyd contract ymgynghori AD i RKC Associates ym mis Chwefror 2016, ynghyd â gweithredoedd penderfynwyr allweddol yn tanseilio hygrededd y broses gaffael

### Cychwynnodd y Bwrdd Iechyd broses gaffael ar gyfer contract a gwahodd ac arfarnu tendrau ar gyfer y contract hwnnw, er ei fod eisoes wedi ymrwymo ag RKC Associates cyn dechrau'r broses dendro

110 Ar 4 Rhagfyr 2015, daeth y contract chwe mis a ddyfarnwyd gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 (ac a ddisodlwyd gan gontract a ddyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2015) i ben.

111 Dywed y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, ei bod wedi atgoffa'r Prif Weithredwr ar y pryd, sef yr Athro Cairns, yn hwyr ym mis Tachwedd 2015 y byddai'r contract ag RKC Associates yn dod i ben yn fuan.

112 Ar ryw bryd y mis Rhagfyr 2015, cysylltodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd â Chyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol y Bwrdd Iechyd i ofyn am gyngor ynghylch y gofynion caffael ar gyfer contract ymgynghori tri mis o hyd. Ni all y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gofio'r amgylchiadau fu'n sbardun iddo siarad â'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol ynghylch y mater hwn.

113 Ar 22 Rhagfyr 2015, cyfarfu'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol â Phennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd, ac fe gynghorodd y Pennaeth Caffael fod angen cynnal ymarfer tendro cystadleuol er mwyn caffael y contract ymgynghori tri mis a gynigiwyd, yn unol ag SFIs y Bwrdd Iechyd.

114 Ar 23 Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd rybudd i hysbysebu bod contract ymgynghori AD tri mis ar gael, gan wahodd darpar gyflenwyr i gyflwyno tendrau ar gyfer y contract erbyn 6 Ionawr 2016. Daeth chwe thendr i law, ac fe'u gwerthuswyd gan Bennaeth Caffael a Swyddog Caffael y Bwrdd Iechyd ar 7 Ionawr 2016. Ar ôl eu gwerthuso, lluniodd y Swyddog Caffael ddrafft o adroddiad gwerthuso caffael a chais am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract. Yn ôl y Swyddog Caffael, anfonodd y dogfennau hyn at y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, i'w derbyn neu eu diwygio yn unol â'i chais. Ar 28 Ionawr 2016, anfonodd y Pennaeth Caffael fersiynau wedi'u diweddaru o'r adroddiad gwerthuso caffael a'r cais am gymeradwyaeth Gynorthwyydd Gweithredol Ms Casey yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i RKC Associates. Awdurdododd Ms Casey yr adroddiad gwerthuso caffael ar 1 Chwefror 2016, ac awdurdododd Cyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd y cais am gymeradwyaeth ar 9 Chwefror 2016.

115 Ar 12 Chwefror 2016, ysgrifennodd Pennaeth Caffael y Bwrdd Iechyd at Ms Chana er mwyn dyfarnu'r contract i'r cwmni hwnnw. Yn y llythyr dyfarnu contract, nodir bod y contract yn weithredol o 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016.

116 Yn ystod fy archwiliad, rhoddodd y Bwrdd Iechyd gopi o lythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 oddi wedi'i gyfeirio oddi wrth Ms Casey at Ms Chana ac wedi'i lofnodi â llofnod electronig Ms Casey. Nodir yn y llythyr: 'Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  yn dymuno ymrwymo i gontract â chi i ddarparu cefnogaeth yn gysylltiedig â gwaith llanw dros dro sydd ei angen ar gyfer rôl Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, gyda hyd y contract hwnnw'n ddibynnol ar benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol parhaol. Mae'r broses honno bellach ar y gweill a chyfweliadau wedi'u trefnu. Dyma fydd y cyflawniadau disgwyliedig yn ystod y cyfnod hwn:

- Cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu;
- Gweithredu'r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch; a
- gweithredu'r cynlluniau i wella'r broses o recriwtio a chadw, yn enwedig ar gyfer nyrsys Band 5.'

117 Mae'r fanyleb ar gyfer y contract ymgynghori tri mis a ddisgrifir yn y llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 yn ymddangos yr un peth â'r contract a hysbysebwyd gan Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd ar 23 Rhagfyr 2015. Ymddengys felly fod Ms Chana wedi cael gwybod mewn ysgrifen fod y contract ymgynghori tri mis wedi'i ddyfarnu iddi hi cyn i'r broses gaffael gychwyn.

118 Mae Ms Casey yn mynnu bod y llythyr wedi'i baratoi gan 'yr Adran AD' ac nid oedd ganddi unrhyw ran yn y cais i baratoi'r llythyr. Mae Ms Casey yn mynnu nad yw'n credu i'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 gael ei anfon at Ms Chana.

119 Nid wyf wedi gallu cadarnhau'n bendant a anfonwyd y llythyr at Ms Chana ai peidio. Fodd bynnag, ailgychwynnodd Ms Chana waith ymgynghori gyda'r Bwrdd Iechyd, gan adrodd wrth Ms Casey ar 14 Rhagfyr 2015, ar yr un dyddiad â'r llythyr, a chyflawni 35 diwrnod o waith ymgynghori i'r Bwrdd Iechyd ar gyfradd o £1,000 + treuliau a TAW rhwng 14 Rhagfyr 2015 ac 11 Chwefror 2016.

120 Mae Ms Casey yn mynnu na wnaeth awdurdodi'r weithred o baratoi'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015, ac nid yw ychwaith yn credu i'r llythyr gael ei anfon at Ms Chana. Fodd bynnag, os na chafodd y llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 ei anfon at Ms Chana, ymddengys i mi fel pe bai Ms Chana wedi dod i'r gwaith yn y Bwrdd Iechyd ar 14 Rhagfyr 2015, wedi cyflawni 35 diwrnod o waith ymgynghori yn y cyfnod rhwng 14 Rhagfyr 2015 ac 11 Chwefror 2016 heb gontract gweithredol, a bod Ms Casey wedi awdurdodi'r taliadau i RKC Associates yn gysylltiedig â'r gwaith hwn. Mae Ms Casey wedi cadarnhau ei bod hi'n ymwybodol bod y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015 wedi'i derfynu ar 4 Rhagfyr 2015.

121 Mae Ms Chana hefyd wedi cadarnhau mai'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 oedd y sail i'w hymrwymiad gyda'r Bwrdd Iechyd o 14 Rhagfyr 2015.

122 Rwyf o'r farn fod tystiolaeth gref i gefnogi'r dybiaeth fod Ms Chana wedi cael gwybod am y penderfyniad i ddyfarnu'r contract ymgynghori tri mis i RKC Associates, a'i bod wedi cychwyn gwaith ar y contract hwnnw cyn y broses dendro a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd.

**Ôl-ddyddio contract a ddyfarnwyd ar 12 Chwefror 2016**

123 Yn ôl yr adroddiad gwerthuso caffael a'r cais am gymeradwyaeth i benodi RKC Associates a anfonwyd at y Prif Weithredwr ar y pryd ar 28 Ionawr 2016, a'r llythyr dyfarnu contract a anfonwyd at Ms Chana ar 12 Chwefror 2016, byddai cyfnod y contract o dri mis yn weithredol o 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith mai 6 Ionawr oedd y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mai dyddiad dyfarnu'r contract oedd 12 Chwefror 2016. Drafftiwyd y naill ddogfen a'r llall o fewn Adran Gaffael y Bwrdd Iechyd. Mae'n ymddangos felly i mi ei bod hi eisoes yn hysbys bod RKC Associates yn cyflenwi'r contract a oedd yn cael ei hysbysebu cyn gwerthuso'r tendrau ar gyfer y contract.

124 Cafodd dyddiad dechrau'r contract ei ôl-ddyddio i 4 Ionawr 2016, cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Yn fy marn i, y rheswm am hyn oedd bod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi ymrwymo Ms Chana ar 14 Rhagfyr i gyflenwi contract a oedd yn ymddangos yr un peth â'r contract a ddyfarnwyd yn swyddogol ar 12 Chwefror 2016.

125 Darparodd y Pennaeth Caffael gopi o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael, ac mae'n mynnu ei bod wedi anfon yr adroddiad hwnnw at Ms Casey i'w gymeradwyo neu ei ddiwygio. Roedd y ddogfen hon yn ddyddiedig 7 Ionawr 2016, ac yn nodi y byddai cyfnod y contract yn dechrau ar 7 Ionawr 2016 ac yn parhau hyd 31 Mawrth 2016.

126 Yn dilyn hyn, lluniwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad gwerthuso caffael. Nodwyd y dyddiad 27 Ionawr 2016 ar y ddogfen hon, a diwygiwyd cyfnod y contract o'r fersiwn flaenorol i'r cyfnod 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Anfonwyd y fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad gwerthuso caffael at Gynorthwyydd Gweithredol Ms Casey ar 28 Ionawr 2016, ac fe'i llofnodwyd gan Ms Casey ar 1 Chwefror 2016.

127 Yn ôl y Swyddog Caffael, ôl-ddyddiodd dyddiad dechrau'r contract i 4 Ionawr 2016 yn fersiwn derfynol yr adroddiad gwerthuso caffael, y cais am gymeradwyaeth a'r llythyr dyfarnu contract, ar sail cyfarwyddyd dros y ffôn o Bencadlys y Bwrdd Iechyd. Dywedodd wrthyf nad oedd yn gallu cofio pwy roddodd y cyfarwyddyd hwn. Rhoddodd y Pennaeth Caffael nodyn ffeil heb ei ddyddio i mi, gan ddweud mai'r Swyddog Caffael oedd yr awdur. Mae'r nodyn ffeil yn datgan: 'Dyfarnwyd y contract ar 12 Chwefror 2016, ond wedi cael gwybod bod RKC Associates wedi dechrau'n gynt ar 4 Ionawr 2016, a nodir hyn ar y [Cais am Gymeradwyaeth] a'r Llythyr Derbyn er mwyn sicrhau bod gwerth llawn y contract wedi'i ymgorffori'.

128 Dylai unrhyw arbenigwr caffael fod wedi bod yn ymwybodol bod cyfarwyddyd i ôl-ddyddio dyfarniad contract yn hynod anarferol. Dylai'r Swyddog Caffael fod wedi bod yn bryderus iawn o gael gwybod bod cyflenwr eisoes yn cyflenwi'r contract cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Mae'n destun syndod hefyd na all y Swyddog Caffael gofio pwy a ddywedodd wrthi am ôl-ddyddio cyfnod y contract, ac nad oedd hynny wedi'i gofnodi yn ei nodyn ffeil.

129 Dylai'r Swyddog Caffael fod wedi gwrthod gwneud hynny a chodi'r mater gyda'r Pennaeth Caffael. Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrthyf na wnaeth y Swyddog Caffael dynnu ei sylw at y mater ar y pryd. Serch hynny, llofnododd y Pennaeth Caffael y cais am gymeradwyaeth a'r llythyr dyfarnu contract, yr oedd y naill a'r llall wedi'u hôl-ddyddio. Mae'r Pennaeth Caffael hefyd wedi dweud wrthyf nad oedd yn ymwybodol o gwbl o'r llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2015 y cyfeirir ato ym mharagraff 116.

130 Wrth ddyfarnu contractau i gyflenwyr allanol, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithredu yn onest a thryloyw, ac y gallant ddangos bod darpar gyflenwyr wedi'u trin yn deg. Bydd methiant i wneud hynny yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn sefydliadau y maent yn ymddiried ynddynt i gyflenwi gwasanaethau allweddol ar eu rhan.

131 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu egwyddorion i lywio ei ddull o gaffael yn gyhoeddus, ac mae'r rhain wedi'u nodi yng SFIs y Bwrdd Iechyd. Dyma'r egwyddorion :

- 'Tryloywder: dylai cyrff cyhoeddus sicrhau didwylledd ac eglurder ynghylch prosesau caffael, a'r modd y'u gweithredir;
- Dim gwahaniaethu: ni chaiff cyrff cyhoeddus wahaniaethu rhwng cyflenwyr na chynnyrch ar sail eu tarddiad;
- Triniaeth deg: dylid trin cyflenwyr yn deg a heb wahaniaethu, gan gynnwys cyfle cyfartal a mynediad at wybodaeth yn enwedig;
- Cyfreithlondeb: mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â gofynion y Gymuned Ewropeaidd a gofynion eraill cyfreithiol;
- Uniondeb: ni ddylid cael unrhyw achos o lygredd neu gydgynllwynio â chyflenwyr nac eraill;
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd: dylai cyrff cyhoeddus gyflawni nodau llywodraethu masnachol, rheoleiddiol ac economaidd-gymdeithasol mewn modd cytbwys sydd yn briodol i'r gofyniad caffael; a
- Effeithlonrwydd: dylid cynnal prosesau caffael mewn modd sydd mor gost-effeithiol ag sy'n bosibl a sicrhau gwerth am arian.'

132 Yn fy marn i, ceir goblygiadau difrifol iawn yn gysylltiedig â phenderfyniad i fwrw ymlaen â phroses gaffael yn gysylltiedig â chontract sydd yn ymddangos fel pe bai eisoes wedi'i ddyfarnu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- methiant y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â'i egwyddorion caffael ei hun.
- bod gweithredoedd y swyddog(ion) cyfrifol yn debygol o danseilio ymddiriedaeth a hyder darpar gyflenwyr yn hygrededd prosesau caffael y Bwrdd Iechyd i raddau sylweddol.
- bod darpar gyflenwyr wedi mynd ati'n ddiffuant i gyflwyno tendrau ar gyfer y contract gan fynd i gostau er mwyn gwneud hynny. Nid oeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod ennill y contract yn hollol amhosib gan ei fod, yn fy marn i, eisoes wedi'i ddyfarnu i gyflenwr arall. Mae'r Bwrdd Iechyd felly wedi'i adael ei hun yn agored i hawliadau cyfreithiol posibl gan y tendrwyr hyn.
- mae adnoddau cyhoeddus gwerthfawr wedi cael eu defnyddio i gynnal proses, yr oedd ei chanlyniad wedi'i benderfynu eisoes.

## Amharwyd ar gadernid a hygrededd y broses gaffael a hysbysebwyd mewn sawl ffordd allweddol, ac fe gymerodd Prif Swyddog Gweithredu y Bwrdd Iechyd ran yn y broses er ei bod yn gwybod bod RKC eisoes wedi dechrau gwaith o dan y contract cyn cychwyn y broses gaffael

133 Fel y nodwyd ym mharagraffau 110 i 132, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod canlyniad yr ymarfer tendro a arweiniodd at ddyfarnu contract tri mis i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Yn ei hanfod, ymarfer ffug oedd yr ymarfer tendro, gan fod RKC Associates eisoes wedi cael ei ymrwymo ar 14 Rhagfyr 2015. Mae hyn yn codi cwestiynau difrifol ynghylch hygrededd y broses gaffael.

134 Cefais wybod bod y Pennaeth Caffael a'r Swyddog Caffael wedi cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r chwe thendr a gafwyd erbyn y dyddiad cau, sef 6 Ionawr 2016. Gwnaed hynny wrth ddesg heb gynnwys unrhyw swyddogion eraill o'r Bwrdd Iechyd. Wrth werthuso'r tendrau, byddwn wedi disgwyl mewnbwn technegol gan arbenigwr AD â phrofiad AD proffesiynol sylweddol, gan mai pwrpas y contract oedd darparu cefnogaeth AD lefel uchel i'r Bwrdd Iechyd. Yn ôl Paragraff 10.2 yn SFIs y Bwrdd Iechyd: 'bydd staff â chymwysterau a phrofiad addas, a chanddynt yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i sicrhau bod tendrau'n cael eu hasesu mewn modd trwyadl a theg, yn gwerthuso tendrau'. Fodd bynnag, cofnodir mewn nodyn ar ffeil a gadwyd gan y Swyddog Caffael fod y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, wedi gofyn a allai'r Adran Gaffael gynnal y gwerthusiad, 'gan fod yr Adran Gaffael yn ddi-duedd'.Mae'r nodyn hwn yn dangos bod Ms Casey yn cydnabod nad oedd hithau'n ddi-duedd yng nghyswllt yr ymarfer tendro hwn.

135 Ar ôl cwblhau'r ymarfer gwerthuso cychwynnol,  lluniodd y Swyddog Caffael becyn o ddogfennau a oedd yn cynnwys drafft o adroddiad gwerthuso caffael dyddiedig 7 Ionawr 2016, drafft o sgorau gwerthuso, drafft o gais am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract, yn ogystal â chopïau o'r tendrau a gafwyd. Mae'r Pennaeth Caffael wedi cadarnhau y darparwyd y pecyn o ddogfennau i Ms Casey, ar gais Ms Casey, i'w derbyn neu eu diwygio. Yn ôl y Swyddog Caffael aeth â'r pecyn o ddogfennau ei hun i adeilad y Bwrdd Iechyd lle'r oedd Ms Casey yn gweithio, gyda nodyn arno i'w sylw. Nid yw'r Adran Gaffael wedi cadw copi o'r pecyn o ddogfennau a anfonwyd at Ms Casey. Fodd bynnag, llwyddodd yr Adran Gaffael i gael hyd i gopïau o bob un o'r dogfennau a oedd wedi'u cynnwys yn y pecyn gwerthuso, ar wahân i ddrafft y cais am gymeradwyaeth.

136 Er mai RKC Associates oedd y tendrwr â'r pris uchaf, cofnodir yn nrafft yr adroddiad gwerthuso caffael, dyddiedig 7 Ionawr 2016, fod y tendr a gyflwynwyd gan y cwmni wedi ennill marciau llawn yn yr holl feini prawf tendro eraill (galluogrwydd ac aliniad mewnol ac allanol). O ganlyniad i hynny, nodwyd mai RKC Associates oedd y tendrwr â'r cyfanswm sgôr uchaf, ac argymhellai'r adroddiad y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Roedd drafft yr adroddiad gwerthuso caffael yn cynnwys mannau gwag i Ms Casey a Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd lofnodi fel swyddogion awdurdodi. Mae Ms Casey wedi dweud wrthyf nad yw'n cofio derbyn y pecyn gwerthuso tendrau.

137 Yn ôl y Swyddog Caffael, yr oedd wedi gofyn i'r adroddiad gwerthuso caffael gael ei awdurdodi a'i ddychwelyd ar sawl achlysur. Ar 27 Ionawr 2016, lluniodd fersiwn o'r adroddiad gwerthuso caffael a oedd yn cynnwys mân ddiwygiadau, a'i anfon drwy e-bost i Bencadlys y Bwrdd Iechyd ar 28 Ionawr 2016. Cafodd yr adroddiad ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, ar 1 Chwefror 2016 fel y swyddog awdurdodi. Mae'r sgorau gwerthuso tendrau yn fersiwn derfynol yr adroddiad gwerthuso caffael yn union yr un peth â'r rhai yn fersiwn gyntaf yr adroddiad, dyddiedig 7 Ionawr 2016. Roedd y sgorau gwerthuso felly heb newid o'r gwerthusiad cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr Adran Gaffael. Ar 28 Ionawr 2016, anfonodd y Swyddog Caffael yr adroddiad gwerthuso caffael terfynol a'r cais am gymeradwyaeth at gynorthwy-ydd gweithredol Ms Casey.Yn y cais am gymeradwyaeth, nodir mai £45,000 yw gwerth y contract, heb gynnwys TAW.

138 Yn fy marn i, cafodd hygrededd y broses dendro ei danseilio oherwydd yr amserlen ar gyfer tendro, ymglymiad y Prif Swyddog Gweithredu, y weithred o ôl-ddyddio'r contract a'r fantais gynhenid i RKC Associates yn y broses. Rhoddir ystyriaeth bellach i bob un o'r agweddau hyn isod.

### Roedd potensial i'r amserlen ar gyfer cyflwyno tendrau gyfyngu ar nifer y tendrwyr

139 Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar gyfer y contract ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd hanner dydd, ddydd Mercher 6 Ionawr 2016. Dim ond chwe diwrnod gwaith llawn yr oedd hyn yn ei roi i ddarpar dendrwyr, gan gynnwys noswyl y Nadolig a Nos Calan, i baratoi a chyflwyno tendrau. Yn fy marn i, roedd potensial i'r amserlen ar gyfer cyflwyno tendrau gyfyngu ar nifer y tendrau fyddai'n dod i law. Yn ôl y Pennaeth Caffael, dywedodd Ms Casey wrthi am gadw at yr amserlen hon gan fod angen y gwasanaeth ar frys.

140 Mae'r Pennaeth Caffael wedi rhoi nodyn ffeil dyddiedig 22 Rhagfyr 2015 i mi o gynhadledd dros y ffôn a gynhaliodd â Ms Casey a Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol y Bwrdd Iechyd ynghylch y broses dendro. Cofnodir bod Ms Casey 'wedi cadarnhau bod hyn yn fater brys, ac a fyddai modd cyhoeddi'r tendr heddiw.' Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw frys ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau basio. Dros bedair wythnos yn ddiweddarach y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd y contract ymgynghori tri mis i RKC Associates (gydag ond saith wythnos yn weddill cyn i'r cyfnod contract o dri mis a nodwyd yn llythyr dyfarnu'r contract ddod i ben).

141 Dywedodd y Pennaeth Caffael wrth fy archwilwyr fod staff Caffael wedi cysylltu â phencadlys gweithredol y Bwrdd Iechyd droeon cyn 28 Ionawr 2016 yn gofyn am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract, ond cafwyd oedi i'r broses gymeradwyo. Ni lofnododd y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey, yr adroddiad gwerthuso caffael hyd 1 Chwefror 2016. Dywed wrthym nad yw'n gwybod beth oedd achos yr oedi hwn. Rwyf o'r farn nad oedd unrhyw frys i ddyfarnu'r contract yn ffurfiol gan fod y cyflenwr a argymhellwyd eisoes wedi'i ymrwymo i gyflenwi'r gwaith yn y contract ar 14 Rhagfyr 2015.

**Cymerodd Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd ran yn y broses gaffael ar adeg pan nad oedd yn ddi-duedd, gan ei bod yn gwybod bod RKC Associates eisoes wedi'u hymrwymo cyn cychwyn y broses gaffael.**

142 Staff yr Adran Gaffael a gyflawnodd waith sgorio cychwynnol y tendrau, a hynny ar gais y Prif Swyddog Gweithredu, Ms Casey. Fodd bynnag, yn ôl y Pennaeth Caffael, gofynnodd Ms Casey i'r sgoriau gwerthuso drafft gael eu hanfon ati. Dywedodd y Pennaeth Caffael mai pwrpas anfon y sgoriau drafft at Ms Casey oedd galluogi Ms Casey naill ai i gymeradwyo'r sgoriau drafft neu ddiwygio'r sgoriau i gyd-fynd â'i barn. Ystyriai'r Pennaeth Caffael fod hyn yn rheolaeth bwysig, gan nad oedd y staff Caffael a gynhaliodd y gwerthusiadau yn arbenigo yn AD, ac roedd gan Ms Casey gefndir AD.

143 Fel y bu hi, ni ofynnodd Ms Casey am gael newid y sgoriau a llofnododd yr adroddiad gwerthuso caffael terfynol, a argymhellai y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Fodd bynnag, ni ddylai Ms Casey fod wedi bod ag unrhyw ran yn y broses dendro gan ei bod eisoes wedi cydnabod a hysbysu'r Adran Gaffael na allai weithredu'n ddi-duedd gan fod Ms Chana wedi bod yn adrodd wrthi yn ystod ei hymrwymiadau ymgynghori blaenorol â'r Bwrdd Iechyd.

144 Yn bwysicach na hyn, ystyriaf nad oedd Ms Casey yn gallu gweithredu'n gwrthrychol ac yn ddi-duedd ynghylch y broses gaffael oherwydd, fel y nodir ym mharagraffau 110-122, roedd Ms Casey yn ymwybodol bod Ms Chana eisoes wedi'i hymrwymo i gyflenwi'r contract yn y tendr. Ni ddylai Ms Casey fod wedi bod ag unrhyw ran yn y weithred o gychwyn proses dendro, nac yn y gwaith o werthuso'r tendrau. Ystyriaf fod Ms Casey yn destun achos gwirioneddol o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r mater hwn.

145 Mae Ms Casey yn dadlau nad oedd yn rhan o'r broses dendro, ac yn datgan 'nad ysgwyddodd gyfrifoldeb dros y broses dendro gystadleuol, ac na ofynnwyd iddi wneud hynny.' Dywed Ms Casey hefyd ei bod ar wyliau dramor o 18 Rhagfyr 2015 hyd 30 Rhagfyr 2015, sef y cyfnod pan roddwyd y cyfle i ennill y contract ar dendr, ac mai'r unig gof sydd ganddi o'r broses gwerthuso tendrau yw gofyn i'r Adran Gaffael gynnal y broses werthuso.

146 Fodd bynnag, rwyf o'r farn fod adroddiad Ms Casey yn anghyson â dogfennau o'r cyfnod ac adroddiadau swyddogion eraill o'r Bwrdd Iechyd. Mae pob un o'r adroddiadau hynny'n cefnogi'n gryf y safbwynt bod Ms Casey wedi ymwneud yn uniongyrchol â chychwyn y broses gaffael, ac wedi cymryd rhan yn y broses o werthuso tendrau. Mae fy nghasgliad yn seiliedig ar y canlynol:

- fel y nodwyd ym mharagraff 140, cefais nodyn ffeil dyddiedig 22 Rhagfyr 2015 oddi wrth y Pennaeth Caffael ynghylch cynhadledd dros y ffôn a gynhaliwyd rhwng y Pennaeth Caffael, Ms Casey, a Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd. Yn ôl y nodyn, roedd Ms Casey wedi hysbysu'r Adran Gaffael y dylid hysbysebu manyleb y contract ac wedi gofyn am gael symud y broses gaffael yn ei blaen ar fyrder. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a Ms Casey wedi cadarnhau bod y gynhadledd hon dros y ffôn wedi cael ei chynnal.

- mae drafft yr Adroddiad Gwerthuso Caffael, dyddiedig 7 Ionawr 2016, yn cynnwys lle i lofnod Ms Casey ar ddiwedd yr adroddiad. Mae hyn yn dangos bod yr Adran Gaffael yn ystyried mai Ms Casey oedd y swyddog comisiynu/a gychwynnodd y broses.

- yn ôl y Pennaeth Caffael, anfonwyd drafft y pecyn gwerthuso tendrau at Ms Casey, yn unol â'i chais, er mwyn cadarnhau neu ddiwygio sgoriau gwerthuso'r tendrau, ac mewn nodyn ffeil a gadwyd gan yr Adran Gaffael, dyddiedig 22 Rhagfyr 215, cofnodir bod Ms Casey 'wedi gofyn i'r Adran Gaffael gynnal y gwerthusiad ac anfon drafft ohono i'w adolygu gan [Ms Casey].'

- cafodd fersiwn derfynol o'r adroddiad gwerthuso caffael, dyddiedig 27 Ionawr 2016, ei lofnodi gan Ms Casey ar 1 Chwefror 2016, yn argymell y dylid dyfarnu'r contract i RKC Associates. Llofnododd Ms Casey y ddogfen hon fel swyddog o'r Bwrdd Iechyd a oedd yn gyfrifol am y contract hwn.

- mae'r Pennaeth Caffael wedi cyflwyno ffurflen datgan buddiant i mi a lofnodwyd gan Ms Casey mewn perthynas â'r broses gaffael. Yr unig swyddogion y mae'r Adran Gaffael yn gofyn iddynt lenwi ffurflen datgan buddiant yw'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r broses gwerthuso tendrau. Llanwodd Ms Casey y ffurflen i gofnodi nad oedd ganddi unrhyw fuddiannau i'w datgan.

### Dyfarnwyd y contract ar 12 Chwefror 2016, ond gwnaed penderfyniad amhriodol i ôl-ddyddio dyddiad dechrau'r contract i 4 Ionawr 2016

147 Fel y nodir ym mharagraffau 123 i 132, dyfarnwyd y contract i RKC Associates ar 12 Chwefror 2016, ond ôl-ddyddiwyd dogfennau'r contract gan y Swyddog Caffael i ddangos 4 Ionawr 2016 fel dyddiad dechrau contract, ddeuddydd cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau. Dywedodd y Swyddog caffael ei bod wedi cael cyfarwyddyd i ôl-ddyddio dogfennau'r contract gan fod yr ymgynghorydd eisoes wedi dechrau gwaith ar y safle cyn y dyddiad hwnnw. Ni all y Swyddog Caffael gofio pwy roddodd y cyfarwyddyd, na phryd y'i cafodd. Nid wyf felly wedi gallu canfod pwy roddodd y cyfarwyddyd hwn. Serch hynny, mae'r ffaith bod y Swyddog Caffael wedi parhau i symud y broses gaffael yn ei blaen hyd at ddyfarnu'r contract ar ôl iddi ddod yn ymwybodol o'r ffaith bod yr ymgynghorydd eisoes yn cyflenwi'r contract, yn codi cwestiynau ynghylch gallu'r Swyddog Caffael i fod yn wrthrychol ynghylch y broses gaffael. Ar ben hynny, cafodd hygrededd y broses gaffael ei thanseilio'n llwyr yn fy marn i.

### Roedd gan RKC Associates fantais sylweddol yn y broses dendro, gan fod manyleb y contract yn deillio'n uniongyrchol o gontractau blaenorol y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, heb gystadleuaeth, a hynny'n groes i SFIs y Bwrdd Iechyd

148 Yn fy marn i, roedd gan RKC Associates fantais sylweddol yn y broses dendro. Dau gyflawniad penodol yn y contract a hysbysebwyd ar 23 Rhagfyr 2015 oedd gweithredu'r cynlluniau:

- i leihau absenoldeb oherwydd salwch; ac
- i wella'r broses recriwtio.

149 Roedd y cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn gynlluniau y bu'n ofynnol i RKC Associates eu cynhyrchu a'u gweithredu erbyn mis Mai 2015 o dan y contract y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd iddo ym mis Tachwedd 2014. Roedd RKC Associates eisoes wedi derbyn contract i weithredu'r cynlluniau hyn yn y contract y dyfarnodd y Bwrdd Iechyd iddo ym mis Mehefin 2015. Roedd y contractau a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 wedi'i ddyfarnu heb gystadleuaeth, ac yn groes i SFIs y Bwrdd Iechyd.

## Ni chadwodd yr Adran Gaffael ddogfennau digonol ynghylch y broses gaffael

150 Wrth gyflawni ymarfer caffael, mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau caffael gadw cofnod da o'r penderfyniadau a gymerwyd, pwy a wnaeth y penderfyniadau hynny, a'r rhesymau drostynt. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Bwrdd Iechyd allu dangos eu bod yn gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw a gwrthrychol.

151 Yn fy marn i, roedd y dogfennau a gynhaliwyd ac/neu a gadwyd gan yr Adran Gaffael yng nghyswllt y contract ymgynghori AD a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Chwefror 2016 yn ddiffygiol am sawl rheswm allweddol:

- er bod yr Adran Gaffael yn cadw matrics a ddangosai sgoriau y tendrwyr yn erbyn y meini prawf gwerthuso, nid yw'r naratif a gofnodwyd er mwyn asesu agweddau ansoddol y tendrau (80% o gyfanswm y marciau) yn rhoi digon o wybodaeth i gyfiawnhau'r sgoriau a ddyrannwyd yn fy marn i. Mae'r ffaith nad oedd gan y staff caffael fu'n cyfrifo sgoriau cychwynnol y tendrau unrhyw wybodaeth arbenigol am waith ymgynghori AD yn ategu'r pryder hwn. Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrthyf fod Ms Casey, sydd yn 'weithiwr proffesiynol AD' wedi awdurdodi'r sgoriau. Er i Ms Casey lofnodi'r adroddiad gwerthuso caffael, ni chefais unrhyw dystiolaeth i ddangos bod Ms Casey wedi cynnal asesiad proffesiynol, yn dangos arbenigedd AD, o'r sgoriau a ddyfarnwyd gan yr Adran Gaffael.

- fel y nodwyd ym mharagraff 135, mae'r Pennaeth Caffael yn mynnu bod y Prif Swyddog Gweithredu wedi gofyn i ddrafft o'r sgoriau gwerthuso tendrau gael eu hanfon ati i'w derbyn neu eu diwygio. Yn ôl y Pennaeth Caffael, ni chadwodd yr Adran Gaffael gopi caled o ddrafft y pecyn gwerthuso tendrau a anfonwyd at Ms Casey, ac gollwyd y fersiynau electronig o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael a'r ddogfen cais am gymeradwyaeth pan arbedwyd fersiynau terfynol y dogfennau drostynt. Rai misoedd ar ôl i'r archwilwyr a weithredai ar fy rhan ofyn am y dogfennau allweddol hyn, llwyddodd yr Adran Gaffael i gael hyd i gopi caled o ddrafft yr adroddiad gwerthuso caffael.

- fel y nodwyd ym mharagraff 127, mae'r Swyddog Caffael yn mynnu ei bod wedi derbyn cyfarwyddyd dros y ffôn y dylid bod nodi, yn adroddiad gwerthuso caffael dyddiedig 27 Ionawr 2016, a'r llythyr dyfarnu contract a anfonwyd at RKC Associates ar 12 Chwefror 2016, mai cyfnod y contract oedd 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 6 Ionawr 2016. Er bod yr Adran Gaffael yn cadw nodyn ar ffeil i gofnodi bod cyfarwyddyd wedi'i roi, nid yw nodyn y ffeil wedi'i ddyddio, ac nid yw ychwaith yn cofnodi'r sawl a roddodd y cyfarwyddyd.

- yn y cais am gymeradwyaeth yr anfonodd at gynorthwy-ydd gweithredol Ms Casey ar 298 Ionawr 2016, nodwyd mai cyfanswm gwerth y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates oedd £45,000 + TAW. Nid oes gan yr Adran Gaffael unrhyw gofnod ysgrifenedig i gefnogi gwerth y contract. Ar ben hynny, mae'r gwerth hwn yn anghyson â'r tendr a gyflwynwyd gan RKC Associates, a nodai y byddai'r gwaith yn costio £52,000 + treuliau + TAW (yn seiliedig ar bedwar diwrnod yr wythnos am 13 wythnos ar gyfradd o £1,000 y dydd + TAW). Dywedodd y Pennaeth Caffael wrthyf mai'r rheswm dros y gwahaniaeth oedd bod yr Adran Gaffael wedi dod yn ymwybodol y byddai Ms Chana yn cymryd gwyliau dros gyfnod y contract. Dywedodd y Pennaeth Caffael wrthyf fod swyddog o'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Caffael am hynny, ond na chadwodd y swyddog nodyn ar ffeil o'r sgwrs, ac na all y swyddog gofio pwy fu'n siarad â hi.
- mae'r Pennaeth Caffael wedi datgan mai Ms Casey a gyfarwyddodd fanyleb y contract mewn cynhadledd dros y ffôn ar 22 Rhagfyr 2015, ac mae hi wedi darparu nodyn ffeil i mi o'r drafodaeth a gynhaliwyd. Serch hynny, dylai'r Adran Gaffael fod wedi gofyn am gadarnhad mewn ysgrifen o'r fanyleb gan y sawl a oedd yn awdurdodi cychwyn proses gaffael, cyn hysbysebu'r contract.

152 Yn ystod fy archwiliad, roeddwn wedi siomi â'r ymatebion a gafwyd oddi wrth yr Adran Gaffael i'm ceisiadau am wybodaeth a dogfennau yr oedd eu hangen ar gyfer fy archwiliad. Nid yw'r Adran Gaffael wedi llwyddo i ganfod y dogfennau y gofynnwyd amdanynt, y mae wedi dweud nad oedd dogfennau ar gael ond i gael hyd iddynt yn ddiweddarach, ac wedi rhoi atebion anghyson i gwestiynau archwilio. Yn fyr, ni chadwodd yr Adran Gaffael drywydd archwilio digonol yn gysylltiedig â'r caffaeliad dan sylw. Nodais yn flaenorol fy mhryderon ynghylch safon y dogfennau a gadwir gan yr Adran Gaffael wrth adrodd fy archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012/13, 2013/14 a 2014/15. Mae'r Pennaeth Caffael wedi cydnabod y dylai safon y dogfennau yn gysylltiedig â chaffael fod wedi bod yn well, ac o edrych yn ôl, y gellid bod wedi gwneud sawl peth yn wahanol yn ystod y broses gaffael.

153 Mae'r Pennaeth Caffael wedi dweud wrth fy archwilwyr fod yr Adran Gaffael wedi cyflwyno sawl mesur i wella prosesau a dogfennau caffael mewnol, ers cychwyn yr archwiliad hwn, gan gynnwys:

- darparu hyfforddiant i'r holl staff caffael gan roi pwyslais arbennig ar uwchgyfeirio a herio;
- cadarnhau a gwella prosesau cymeradwyo contractau, gan gynnwys gofyniad i'r Prif Weithredwr gymeradwyo pob penodiad ymgynghori/dros dro;

- cynnal archwiliadau chwarterol lleol o gaffaeliadau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, a chaffaeliadau ar lefel is na hynny, (yn ychwanegol at archwiliadau presennol);
- diwygio dogfennau caffael er mwyn eglurhau hierarchaethau cymeradwyo caffael; ac
- mae'r Adran Gaffael wedi gwneud cais am achrediad rheoli ansawdd ISO 9001 yn gysylltiedig â phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd, a bwriedir cynnal asesiad achredu ym mis Medi 2017.

## Oedodd y Bwrdd Iechyd cyn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd, gan achosi i'r Bwrdd Iechyd orfod gwario heb fod angen ar gontract ymgynghori

154 Ym mis Medi 2015, cychwynnodd y Bwrdd Iechyd broses i benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd ar wedi i ddeilydd blaenorol y swydd ymddeol. Ar 30 Medi 2015, hysbysebodd y Bwrdd Iechyd swydd gan nodi'r 6 Tachwedd fel dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Mae Ms Chana, perchennog RKC Associates yn dweud bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, wedi cysylltu â hi ym mis Rhagfyr 2015 a gofyn iddi ystyried ymgeisio am y swydd (er bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio). Dywedodd Ms Chana ei bod wedi hysbysu'r Prif Weithredwr ar y pryd, ar ôl gwyliau Nadolig 2015, ei bod hi'n barod i ymgeisio am y rôl 'os oedd modd bodloni'r gofynion o ran cyflog ac oriau gwaith hyblyg.' Rwyf wedi cyflwyno sylwadau ar y broses recriwtio a ddilynwyd gan y Bwrdd Iechyd ym mharagraffau 167 i 187.

155 Ar 13 Ionawr 2016, cafodd Ms Chana ei chyfweld gan banel recriwtio ar gyfer swydd barhaol Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru (a oedd ar y panel recriwtio yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Proffesiwn y Gweithlu a Datblygu Trefniadol yn GIG Cymru) wedi dweud wrth fy archwilwyr nad oedd yn fodlon bod Ms Chana wedi arddangos yn llawn yr holl gymwyseddau yr oedd eu hangen i'w phenodi'n barhaol, felly mynegodd yn glir na allai'r Bwrdd Iechyd gynnig swydd barhaol i Ms Chana. Dywed ei bod wedi awgrymu wrth aelodau eraill y panel recriwtio y gallai'r Bwrdd Iechyd gynnig penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd i Ms Chana, yn amodol ar ail-hysbysebu'r swydd a chynnal cystadleuaeth agored ar ei chyfer cyn i'r flwyddyn honno ddod i ben. Ar ôl trafod hyn, cytunodd y panel recriwtio i gynnig y swydd i Ms Chana fel yr awgrymwyd.

156 Ar ryw bryd rhwng cyfarfod y panel recriwtio ar 13 Ionawr 2016 a chyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar 28 Ionawr 2016, cynigiwyd swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn y Bwrdd Iechyd i Ms Chana ar lafar. Nid wyf wedi gallu cadarnhau dyddiad na thelerau'r cynnig hwn.

157 Ar 28 Ionawr 2016, hysbysodd y Prif Weithredwr, yr Athro Cairns, gyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar lafar fod Ms Chana 'wedi cael ei phenodi i'r swydd Weithredol ar ôl cynnal cystadleuaeth agored.'

158 Ar yr un diwrnod, sef 28 Ionawr 2016, ysgrifennodd yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru ynghylch y penodiad, gan ddweud bod Ms Chana 'wedi perfformio'n wych yn y cyfweliad, ac mae'n bleser cael cynnig y rôl iddi.'a bod Ms Chana 'eisiau sicrhau cyflog o £150k. Uchafswm yr ystod arferol ar gyfer y rôl honno yw £134k. Rwyf felly'n gofyn am eich cefnogaeth i alluogi'r Bwrdd i gynnig y swydd hon, yn amodol ar yr holl gymwyseddau arferol, ar gyfradd o £150k'. Gan fod y cyflog arfaethedig yn uwch na'r ystod cyflog a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, sef £125,000 hyd £134,000 ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y GIG, roedd angen i'r Bwrdd Iechyd gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i benodi ar y lefel honno o gyflog.

159 Fodd bynnag, ni chyfeiriai'r llythyr a anfonwyd i Lywodraeth Cymru at benodiad cyfnod penodol, a chan na thybiwyd bod Ms Chana yn bodloni'r safon ar gyfer penodiad parhaol yn y broses asesu, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cymeradwyo penodiad Ms Chana i swydd barhaol, waeth beth fo'r cyflog. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wrth Brif Weithredwr GIG Cymru fod y llythyr yn anghyson â chytundeb y panel recriwtio, a chyflëwyd wrth yr Athro Cairns na fyddai Llywodraeth Cymru ond yn barod i gefnogi cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cyflog dan sylw pe bai'r cais hwnnw ar gyfer penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd, yn unol â chanlyniad cytunedig y panel.

160 Ar 2 Chwefror 2016, cyflwynodd yr Athro Cairns adroddiad ysgrifenedig i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd yn datgan bod Ms Chana 'bellach wedi cael cynnig y swydd ar lafar ar gontract cychwynnol o 12 mis' a gofynnodd am gymeradwyaeth y Pwyllgor i gynnig cyflog o £150,000 i Ms Chana yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

161 Cadarnhaodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y trefniadau cyflog fyddai'n cael eu cynnig i Ms Chana, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (ar sail penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd).

162 Ar 5 Ionawr 2016, roedd Ms Chana wedi cyflwyno tendr i gyflawni gwaith ymgynghori AD o fewn y Bwrdd Iechyd. Ni ddyfarnwyd y contract hwn hyd 12 Chwefror 2016. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi cymeradwyo penodiad Ms Chana fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar 2 Chwefror 2016 yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, ac fe'i hysbyswyd am benodiad Ms Chana i'r swydd ar 28 Ionawr 2016. Dylai penodiad Ms Chana i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol wedi bod yn ffactor o bwys wrth benderfynu a ddylid dyfarnu contract ymgynghori pellach i RKC Associates. Roedd gan y Bwrdd Iechyd y dewis i ganslo neu oedi'r broses gaffael er mwyn galluogi Ms Chana i dderbyn swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Serch hynny, dyfarnwyd contract ymgynghori pellach 3 mis o hyd i Ms Chana.

163 Fel y nodwyd ym mharagraff 158, ysgrifennodd y Athro Cairns at Lywodraeth Cymru ar 28 Ionawr 2016 yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Ms Chana fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd ar gyflog o £150,000. Fodd bynnag, ar ôl i Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru weld copi o'r llythyr, dywedodd wrth yr Athro Cairns na ellid ystyried cais i gymeradwyo'r cyflog ar gyfer swydd barhaol, ac na fyddai ond yn barod i gefnogi cais ar gyfer penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd, fel y cytunwyd gan y panel recriwtio. Serch hynny, ni ysgrifennodd yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer penodiad cyfnod penodol gyda chyflog blynyddol o £150,000 hyd 15 Ebrill 2016.

164 Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru ei bod yn y cyfamser wedi gofyn am y newyddion diweddaraf oddi wrth y Bwrdd Iechyd ynghylch y penodiad arfaethedig, ond ei bod yn ansicr ynghylch pam na chyflwynodd y Bwrdd Iechyd gais am gymeradwyaeth i benodi ar sail cyfnod penodol ar gyflog o £150,000 hyd 15 Ebrill 2016. Atebodd Prif Weithredwr GIG Cymru lythyr yr Athro Cairns, dyddiedig 15 Ebrill 2016, ar 21 Ebrill 2016 er mwyn cymeradwyo cyflog o £150,000.

165 Ysgrifennodd yr Athro Cairns at Ms Chana ar 4 Ebrill 2016 er mwyn cynnig swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol iddi yn ffurfiol, a dechreuodd Ms Chana fel cyflogai gyda'r Bwrdd Iechyd ar 6 Ebrill 2016. Roedd hyn cyn i'r Athro Cairns ysgrifennu at Brif Weithredwr GIG Cymru yn gofyn am gymeradwyaeth ar 15 Ebrill 2016, a chyn iddo dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer y cyflog oddi wrth Brif Weithredwr GIG Cymru ar 21 Ebrill 2016.

166 Nid yw'n glir pam na ysgrifennodd yr Athro Cairns at Lywodraeth Cymru hyd 15 Ebrill 2016 i ofyn am gymeradwyaeth am benodiad cyfnod penodol ar gyflog o £150,000. Dywedodd y cyn Brif Weithredwr wrthyf nad oedd yn gallu cofio'r rheswm dros yr oedi, ac mai mater gweinyddol ydoedd yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, o ystyried y materion eraill a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai pwrpas yr oedi oedd galluogi Ms Chana i gyflawni'r contract ymgynghori tri mis, gan achosi gwariant ychwanegol diangen gan y Bwrdd Iechyd. Gallai tâl Ms Chana fel cyflogai gyda'r Bwrdd Iechyd fod wedi bod yn llai na'r swm a dderbyniodd drwy'r contract ymgynghori (£1,000 + TAW bob dydd).

## Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi perchennog RKC Associates i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni

167 Fel y nodwyd ym mharagraff 4, ar 30 Medi 2015, gadawodd cyn Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd gyflogaeth y Bwrdd Iechyd. Cyn hynny, yr oedd wedi bod ar secondiad i sefydliad arall o fewn y GIG. Wedi hynny, dechreuodd y Bwrdd Iechyd broses i benodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol newydd drwy ddefnyddio ymgynghorwyr recriwtio i gefnogi'r broses.

168 Er gwaethaf ymgyrch hysbysebu genedlaethol, ychydig iawn o ddiddordeb a gafwyd yn y swydd. Cafodd tri ymgeisydd eu cynnwys ar restr fer i'w cyfweld o flaen panel ar 7 Rhagfyr 2015. Ychydig cyn y cyfweliadau a drefnwyd o flaen y panel, tynnodd dau o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn ôl o'r broses. O ganlyniad i hynny, cafodd y broses recriwtio ei hoedi hyd fis Ionawr 2016. Dywedodd Ms Chana wrth fy archwilwyr fod y cyn Brif Weithredwr, yr Athro Cairns, wedi gofyn iddi symud y broses recriwtio yn ei blaen, ac y gofynnwyd i Reolwr Llywodraethu Gweithlu y Bwrdd Iechyd roi cefnogaeth gydgysylltiol a gweinyddol i Ms Chana.

169 Yn ôl Ms Chana, cysylltodd yr Athro Cairns â hi ar ôl i'r ddau ymgeisydd cyntaf ar y rhestr fer dynnu'n ôl ym mis Rhagfyr 2015, a'i hannog i ymgeisio am y swydd. Yn ôl Ms Chana, dywedodd wrth yr Athro Cairns y byddai'n ystyried dros wyliau'r Nadolig/y Flwyddyn Newydd a fyddai'n ymgeisio ai peidio, ac ar ôl y cyfnod hwnnw, dywedodd wrtho y byddai'n ymgeisio yn amodol ar gytuno cyflog a thelerau gwaith hyblyg. Dywed hefyd ei bod ar y pryd wedi dweud wrth yr Athro Cairns na fyddai'n briodol iddi oruchwylio'r broses recriwtio o hynny allan, gan ei bod yn ymgeisydd.

170 Ar 4 Ionawr 2016, tynnodd yr unig ymgeisydd oedd ar ôl ar y rhestr aros yn ôl, gan olygu mai Ms Chana oedd yr unig ymgeisydd ar gyfer y swydd. Ar 13 Ionawr 2016, cynhaliwyd cyfweliad â Ms Chana o flaen panel recriwtio am swydd barhaol fel Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Ymhlith aelodau'r panel yr oedd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, aelod annibynnol o Fwrdd y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru (yn ei rôl fel Pennaeth Proffesiwn y Gweithlu a Datblygu Trefniadol o fewn GIG Cymru). Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn cofio na chafodd ond wybod ar ddechrau wythnos 11 Ionawr 2016 mai ond un oedd yn ymgeisio am y swydd, ac mai Ms Chana oedd yr ymgeisydd hwnnw, nad wedi ymgeisio am y rôl yn wreiddiol.

171 Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wrth fy archwilwyr ei bod wedi dweud wrth aelodau eraill y panel, ar ôl cyfweliad Ms Chana, nad oedd o'r farn, fel Pennaeth y Proffesiwn, fod Ms Chana wedi arddangos yr ystod lawn o gymwyseddau yr oedd eu hangen ar gyfer y rôl. Nid oedd felly'n barod i gefnogi penodiad Ms Chana i'r swydd yn barhaol.

172 Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru, awgrymodd y gallai'r Bwrdd Iechyd gynnig penodiad cyfnod penodol blwyddyn o hyd i Ms Chana, yn amodol ar ail-hysbysebu'r swydd a chynnal cystadleuaeth agored ar ei chyfer cyn i'r flwyddyn honno ddod i ben. Mae hi'n cofio bod y panel recriwtio wedi trafod y cynnig hwn, a chytuno mai dyna oedd y ffordd ymlaen.

173 Fel y nodwyd ym mharagraff 157, ar 28 Ionawr 2016, hysbysodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd, yr Athro Cairns, gyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd fod Ms Chana 'wedi cael ei phenodi i'r swydd Weithredol ar ôl cynnal cystadleuaeth agored.'Nid yw'r cofnodion yn datgan mai penodiad dros dro ydoedd, nac ychwaith yn cyfeirio at yr angen i sicrhau cymeradwyaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ei gyfer. Fel y nodwyd ym mharagraff 158, ysgrifennodd yr Athro Cairns ar yr un diwrnod at y Prif Weithredwr yn gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i benodi Ms Chana i'r swydd ar gyflog o £150,000. Ni chyfeiriai'r llythyr o gwbl at y ffaith mai cais am benodiad cyfnod penodol oedd dan sylw. Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wedi dweud wrthyf ei bod, ar ôl derbyn copi o'r llythyr, wedi hysbysu Prif Weithredwr GIG Cymru nad oedd y llythyr yn gyson â chytundeb y panel recriwtio, a chyflëwyd hynny wrth yr Athro Cairns.

174 Ar 2 Chwefror 2016, ystyriodd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Athro Cairns, a nodai fod: ‘Ms Chana bellach wedi cael cynnig y swydd ar lafar ar gontract cyfnod penodol cychwynnol o 12 mis’. Nodai hefyd fod y cyflog a gynigiwyd, sef £150,000, yn uwch nag ystod Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogau cymeradwy Llywodraeth Cymru, sef £125,000 hyd £134,000 ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol y GIG, ac y gofynnwyd felly am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i dalu’r gyfradd uwch. Cyfeiriwyd yn ei adroddiad ysgrifenedig at y llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2016 odi wrth yr Athro Cairns at Brif Weithredwr GIG Cymru, yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Ms Chana, ac atodwyd copi o’r llythyr hwnnw. Argymhellai’r adroddiad y dylai’r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth gadarnhau: ‘y trefniadau cyflog i’w cynnig i Ms Chana yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru’.

175 Yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2016, derbyniodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ddiweddariad ar lafar gan yr Athro Cairns, lle dywedodd wrth y Pwyllgor fod Ms Chana wedi cael ei ‘chyfweld yn llwyddiannus’ a’i bod yn ‘gofyn am gyflog o £150k y flwyddyn.’ Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor fod Ms Chana: ‘wedi cytuno ar drefniant gweithio hyblyg fyddai’n galluogi Ms Chana i arwain trefniadau gweithio o bell, a bod yn esiampl o hynny. Mae’r swydd wedi’i chynnig ar gontract cyfnod penodol cychwynnol 12 mis o hyd fyddai’n galluogi’r naill barti a’r llall i benderfynu a fyddai’r trefniant gwaith hyblyg hwn yn llwyddo yn y tymor hir, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyflog cychwynnol.’

176 Ar 6 Ebrill 2016, cychwynnodd Ms Chana ei swydd yn ffurfiol fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, er na cheisiodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y penodiad cyfnod penodol, ar gyflog o £150,000, hyd 15 Ebrill 2016.

177 Roedd y broses a ddilynodd y Bwrdd Iechyd a arweiniodd at benodi Ms Chana i swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ym mis Ebrill 2017 yn tanseilio hygrededd y Bwrdd yn llwyr. Nid oedd y broses yn ddigon tryloyw ychwaith, ac nid oedd cofnod digonol ohoni, am y rhesymau a roddir isod.

## Nid yw'n glir pam bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu mynd rhagddo â phroses i recriwtio i swydd ar lefel y Bwrdd, gydag ond un ymgeisydd nad oedd wedi gwneud cais am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol

178 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu unrhyw ddogfennau sy'n disgrifio sut a pham y penderfynwyd bwrw ymlaen â'r broses recriwtio ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol pan nad oedd ond un yn ymgeisio am y swydd. Roedd y swydd ar lefel y Bwrdd, ac roedd yr unig ymgeisydd a gyfwelwyd heb ymgeisio am y swydd pan gafodd ei hysbysebu'n wreiddiol. Er bod swyddogion y Bwrdd Iechyd wedi dweud bod yr ymateb i'r hysbyseb wreiddiol yn wael, roedd lefel y tâl a gytunwyd â Ms Chana yn sylweddol uwch na'r hyn a hysbysebwyd yn wreiddiol. Yn fy marn i, pe bai'r Bwrdd Iechyd, ar ôl yr ymgyrch recriwtio aflwyddiannus, wedi gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynnig pecyn tâl gwell wrth hysbysebu, gallai mwy o ymgeiswyr wedi dangos diddordeb yn y cyfle. Nid wyf wedi cael esboniad credadwy ynghylch pam na chymerodd y Bwrdd Iechyd y cam hwn.

## Nid oedd cofnod da o'r broses recriwtio, ac o ganlyniad i hyn nid yw'n glir pa bryd y trodd y sawl a oedd wedi bod yn goruchwylio'r ymarfer recriwtio yn ymgeisydd

179 Ar 11 Ionawr 2016, ysgrifennodd Ms Chana at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, yr Athro Cairns, i ymgeisio'n ffurfiol am swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd, gan amgáu ei CV. Nid oedd hyn ond dau ddiwrnod cyn i Ms Chana gael cyfweliad. Mae'n glir o'r negeseuon e-bost mewnol fod Ms Chana eisoes yn cael ei thrin fel yr unig ymgeisydd cyn 11 Ionawr 2016.

180 Fel y nodwyd ym mharagraff 170, tynnodd yr ymgeisydd olaf a oedd wedi ymgeisio am y swydd yn wreiddiol ei chais yn ôl ar 4 Ionawr 2016. Serch hynny, dengys negeseuon e-bost mewnol fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i fynd rhagddo â'r broses recriwtio yn y diwrnodiau yn syth ar ôl hynny, ac mai Ms Chana oedd yr unig ymgeisydd posibl o 4 Ionawr 2016 ymlaen. Ar 7 Ionawr 2016, ysgrifennodd Rheolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd at Ms Chana i'w hysbysu am deitl y cyflwyniad ar gyfer cyfarfod y panel ar 13 Ionawr 2016, a chan nodi bod y Prif Weithredwr ar y pryd, yr Athro Cairns, 'wedi gofyn i mi gael copi o'r CV ar gyfer y panel. 'Nid oedd wedi cyflwyno cais am y swydd ar y pryd. Rwyf felly o'r farn fod Ms Chana eisoes yn ymgeisydd cyn iddi ymgeisio'n ffurfiol am y rôl ar 11 Ionawr 2016.

181 Er ei bod hi'n amlwg bod Ms Chana yn ymgeisio a y swydd yn fuan ym mis Ionawr 2016, ni dyw'r cofnodion a gadwir gan y Bwrdd Iechyd yn rhoi darlun clir o'r modd y daeth Ms Chan yn ymgeisydd ar gyfer y broses recriwtio yr oedd wedi bod yn ei goruchwylio, a phryd y digwyddodd hynny. O ganlyniad i hynny, nid wyf wedi gallu fy modloni fy hun yn llwyr nad oedd Ms Chan yn goruchwylio'r broses recriwtio ar ôl iddi hi ei hun droi'n ymgeisydd. Mae Ms Chana wedi dweud wrthyf ei bod wedi cytuno i fod yn ymgeisydd ar ôl gwyliau'r Nadolig/y Flwyddyn Newydd, a'i bod wedi tynnu'n ôl o'r broses recriwtio ar ôl iddi droi'n ymgeisydd.

## Tanseiliwyd uniondeb y broses recriwtio gan fod gan yr unig ymgeisydd fynediad at rai o'r cwestiynau asesu cyn cael ei chyfweld ar gyfer y swydd

182 Tra'r oedd yn goruchwylio'r broses recriwtio, cefnogwyd Ms Chana gan Reolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd. Roedd cyfrifoldebau Rheolwr Llywodraethu Gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys datblygu cwestiynau posibl y gallai'r Panel eu rhoi i'r ymgeiswyr. Ar 15 Rhagfyr 2015, anfonodd Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu ddrafft cynnar o'r cwestiynau a awgrymwyd at Ms Chana, a chynnig am destun y byddai disgwyl i ymgeiswyr roi cyflwyniad arno. Y testun a anfonwyd at Ms Chana oedd y testun y gofynnwyd i Ms Chana roi cyflwyniad arno o flaen y panel recriwtio ar 13 Ionawr 2016. Defnyddiodd y panel hefyd rai o'r 1cwestiynau a anfonwyd at Ms Chana ar 15 Rhagfyr 2015. Mae'n debygol nad oedd Ms Chana yn ymgeisydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol ar 15 Rhagfyr 2015. Fodd bynnag, ar ôl i'r Bwrdd Iechyd ddod yn ymwybodol bod yr unigolyn a oedd yn arwain y broses recriwtio wedi troi'n ymgeisydd, dylid bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau na fyddai hygrededd y broses yn cael ei danseilio. Mae'n amlwg na chymerwyd unrhyw gamau i'r perwyl hwnnw. Yn ôl negeseuon e-bost o'r cyfnod rhwng Ms Chana a Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu, roedd trafodaethau ynghylch y cwestiynau y gellid eu gofyn mewn cyfweliadau wedi parhau hyd 6 Ionawr 2016.

183 Ar 6 Ionawr 2016, ysgrifennodd Rheolwr Llywodraethu'r Gweithlu at Ms Chana yn nodi: 'Bydd angen i mi anfon pecyn cyfweld ac ati allan i'r panel o fewn y diwrnod neu ddau nesaf. Byddaf yn parhau â'r cwestiynau yr ydym wedi bod yn eu trafod'. Ar y pryd, oedd Ms Chana eisoes yn ymgeisio am y swydd. Ni ellir felly ddiystyru'r posibilrwydd fod gan Ms Chana fynediad at gwestiynau terfynol y cyfweliad cyn iddi gael ei hasesu. Ar ben hynny, gofynnwyd i Ms Chana roi cyflwyniad ar y testun: 'Sut fyddech chi'n datblygu'r gweithlu hyblyg a darbodus fydd ei angen arnom i gyflawni ein strategaeth Siapio ein Lles i'r Dyfodol.' Ar CV Ms Chana, y cyflwynodd i'r Bwrdd Iechyd i ddibenion yr ymarfer recriwtio, rhestrir

y canlynol fel un o'i chyflawniadau: 'Alinio adnoddau a strategaeth y gweithlu i gyd-fynd â'r strategaeth gorfforaethol 'Siapio ein Lles i'r Dyfodol 2015-2025'. Gofynnwyd felly i Ms Chana roi cyflwyniad ar yr un testun yr oedd wedi bod yn gweithio arno yn y Bwrdd Iechyd o dan ei chontract ymgynghori.

## Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd a'i Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ynghylch y penodiad yn anghywir, yn anghyflawn ac yn anghyson

184 Fel y nodwyd ym mharagraff 157, yng nghofnodion cyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2016, nodir bod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi rhoi adroddiad gan ddatgan bod 'y Cyfarwyddwr Dros Dro [ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Trefniadol] wedi cael ei phenodi i'r swydd Weithredol ar ôl cynnal cystadleuaeth agored.' Roedd y datganiad hwn yn gamarweiniol am y rhesymau a ganlyn:

- nid yw'n adlewyrchu cytundeb y panel recriwtio, sef mai ond contract dros dro fyddai'n cael ei gynnig i Ms Chana; ac
- nid yw'n cyfeirio at yr angen i gael cymeradwyaeth ar gyfer yr ystod cyflog a gynigiwyd oddi wrth Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd, ac oddi wrth Lywodraeth Cymru (gan fod y cyflog a gynigiwyd y tu hwnt i'r ystod a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru).

185 Fel y nodir ym mharagraffau 174 i 175, cafodd y cynnig i benodi Ms Chana fel Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol y Bwrdd Iechyd am gyfnod o flwyddyn ac ar gyflog o £150,000 ei gyflwyno gerbron cyfarfod Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd ar 2 Chwefror 2016. Nid oedd adroddiad y Prif Weithredwr i gyfarfod y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ar 2 Chwefror 2016, na chofnodion y cyfarfod, yn cyfeirio at y ffaith mai Ms Chana oedd yr unig ymgeisydd a gafodd ei chyfweld ar gyfer y rôl. Ar ben hynny, nodir yn adroddiad y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod Ms Chana 'wedi perfformio'n wych yn y cyfweliad' ond nid yw'n crybwyll yr amheuon a fynegwyd gan Gyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru ynghylch perfformiad Ms Chana yn y cyfweliad, na'r ffaith bod y panel wedi casglu na ellid cynnig swydd cyfarwyddwr gweithredol ar sail barhaol i Ms Chana ar y pryd.

186 Nodir yn adroddiad y Prif Weithredwr ac yn y cofnodion mai am flwyddyn yr oedd y penodiad. Serch hynny, ni chofnodir yn y naill na'r llall y ffaith mai amharodrwydd Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru i gefnogi penodiad parhaol oedd wrth wraidd hyn, ac y byddai angen ail-hysbysebu'r swydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Yn ôl pob golwg, mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn awgrymu mai'r rheswm dros gynnig contract cyfnod penodol i Ms Chana oedd er mwyn canfod a fyddai trefniadau weithio o bell yn gweddu i'r Bwrdd Iechyd ac i Ms Chana yn y tymor hir. Mae Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Trefniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn cyfleu'n glir mai'r prif reswm dros gynnig contract blwyddyn o hyd oedd y ffaith nad oed Ms Chana 'yn uwch na'r llinell ar gyfer y broses' , ac yn dilyn trafodaeth, casglodd y panel na allent gynnig penodiad parhaol.

187 Ceir anghysondeb rhwng adroddiad y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth sy'n cynnig y dylid penodi Ms Chana am flwyddyn yn unig, a'r llythyr a atodir i'r adroddiad, dyddiedig 28 Ionawr 2016, oddi wrth Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar y pryd at Brif Weithredwr GIG Cymru, lle na cheir unrhyw sôn am benodi am gyfnod penodol.

# Atodiad 1 – Crynodeb o gontractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates a’r cyflawniadau a bennwyd yn y contractau

Arddangosyn 1: crynodeb o gontractau ymgynghori a ddyfarnwyd i RKC Associates

| | Cyfnod y contract | Cyflawniadau'r contract |
|---|---|---|
| **Contract 1** | 1 Rhagfyr 2014 hyd 31 Mai 2015 | • Darparu cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.<br>• Adolygu’r broses recriwtio gan anelu i’w gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol.<br>• Adolygu’r broses rheoli presenoldeb gan anelu i’w gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol.<br>Mae’r contract yn cynnwys 3 cham prosiect:<br>Cam 1: Dadansoddi, adolygu a diagnosis (Rhagfyr 2014 hyd Ionawr 2015)<br>Cam 2: Gweithdai cynlluniau gweithredu a chymeradwyo cynlluniau (Ionawr 2015 hyd Chwefror 2015)<br>Cam 3: Gweithredu cynlluniau (Mawrth 2015 hyd Mai 2015) |
| **Contract 2** | 9 Mehefin 2015 hyd 4 Rhagfyr 2015 | • Darparu cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Trefniadol.<br>• Gweithredu’r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch er mwyn sicrhau bod y buddion angenrheidiol yn cael eu gwireddu, drwy ddefnyddio methodolegau arfer gorau.<br>• Gweithredu’r cynlluniau i wella’r broses recriwtio er mwyn sicrhau bod y buddion angenrheidiol yn cael eu gwireddu, drwy ddefnyddio methodolegau arfer gorau.<br>• Darparu cefnogaeth dros dro yn gysylltiedig â meysydd eraill â blaenoriaeth a allai godi. Cyflenwir unrhyw gefnogaeth o’r fath drwy gytundeb. |
| **Contract 3** | 4 Ionawr 2016 hyd 31 Mawrth 2016 | • Cefnogaeth dros dro ar lefel uwch i Gyfarwyddiaeth y Gweithlu.<br>• Gweithredu’r cynlluniau i leihau absenoldeb oherwydd salwch.<br>• Gweithredu’r cynlluniau i wella’r broses recriwtio a chadw. |

# Atodiad 2 – Taliadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates am waith ymgynghori AD a gyflawnwyd rhwng 11 Tachwedd 2014 a 31 Mawrth 2016 (heb gynnwys TAW)

Arddangosyn 2: taliadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i RKC Associates am waith ymgynghori AD

| | Gwaith ymgynghori ar gyfradd ddyddiol | Treuliau | Cyfanswm | Diwrnodiau a weithiwyd |
|---|---|---|---|---|
| Contract 1 | £104,000 | £10,625 | £114,625 | 104 |
| Contract 2 | £101,000 | £9,888 - £11,078* | £110,888 - £112,078 | 101 |
| Contract 3 | £59,500 | £4,606 - £5,796* | £64,106 - £65,296 | 59.5 |
| **Cyfanswm** | **£264,500** | **£26,309** | **£290,809** | **264.5** |

*nid yw'n amlwg o'r anfonebau a gyflwynwyd gan RKC Associates a yw rhai treuliau'n berthnasol i Gontract 2 neu 3.

# Atodiad 3 – Enghreifftiau lle torrwyd SFIs y Bwrdd Iechyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015

| Gofyniad SFI | Y broses a ddilynwyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 |
|---|---|
| Dylid cynnal tendr cystadleuol i gaffael unrhyw waith, nwyddau a gwasanaethau gwerth mwy na £25,000, heb gynnwys TAW. (Atodlen 1 Para 4.1) | Dyfarnwyd contractau ymgynghori AD dros £25,000 heb gynnwys TAW heb gynnal unrhyw broses dendro gystadleuol |
| Y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am gadarnhau bod pob cwmni ar y rhestr tendro yn gadarn yn ariannol ac yn gymwys yn broffesiynol drwy broses cyn-gymhwyso/fetio ariannol a gyflawnir gan swyddog caffael a chanddo gymwysterau a phrofiad addas. (Atodlen 1 Para 5.1) | Nid oedd gan swyddogaethau cyllid na chaffael y Bwrdd Iechyd unrhyw ran yn y broses o gaffael RKC Associates, ac nid oes unrhyw gofnod bod RKC wedi cael ei fetio'n ariannol neu'n broffesiynol |
| Yn unol ag arfer gorau, dylai'r Bwrdd Iechyd ofyn i isafswm o bedwar cwmni gyflwyno tendr am gontractau ac iddynt werth rhwng £25,000 a'r trothwy ar y pryd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. (Atodlen 1 Para 5.1) | Ni cheisiwyd ac ni chafwyd tendrau |
| Ni chaniateir gweithred tendr sengl ond pan fydd angen cwmni neu gontractwr unigol, neu eitem neu wasanaeth priodol o natur neilltuol, fel y nodir yn y gyfraith. Ni cheir ond defnyddio gweithred tendr sengl yn dilyn cyflwyniad ffurfiol a chyda chaniatâd ysgrifenedig clir y Prif Weithredwr, neu ddirprwy dynodedig, ar ôl rhoi ystyriaeth ddigonol i'r gofynion caffael. Dylai'r Prif Weithredwr gadw cofnod manwl. Mae'n rhaid adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio ynghylch pob gweithred tendr sengl ac estyniad ar gontract (Atodlen 1 Para 5.1) | RKC Associates oedd yr unig gyflenwr y cysylltwyd ag ef i gyflenwi'r contract. Nid oedd y gwasanaethau ymgynghori yr oedd eu hangen yn unigryw, ac roedd marchnad gystadleuol ar gael. Ni ellid felly brynu'r gwasanaeth drwy weithred tendr sengl. Nid oes unrhyw awdurdod ysgrifenedig ar gyfer gweithred tendr sengl, nid oes unrhyw gofnod wedi'i gadw o weithred tendr sengl, ac ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad ar hynny gerbron Pwyllgor Archwilio y Bwrdd Iechyd. |

| Gofyniad SFI | Y broses a ddilynwyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 |
|---|---|
| Yn amodol ar gydymffurfio ag unrhyw ofyniad cyfreithiol ac amodau contract cytunedig, caniateir ymestyn contract unwaith ar yr amod nad yw'r gost ychwanegol yn uwch na 50% o werth gwreiddiol y contract, hyd at uchafswm o £75,000 heb gynnwys TAW. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth glir y Prif Weithredwr ar gyfer estyniad o'r fath, neu ddirprwy iddo os yw'r Prif Weithredwr yn absennol. Os caiff contract ei hysbysebu gan gynnwys cymal cyfreithiol sy'n cynnig opsiwn i ymestyn, ni fydd angen cymeradwyaeth o'r fath oni cheir newid i unrhyw agwedd ar delerau ac amodau cyfredol y contract, gan gynnwys y pris. Mae'n rhaid adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio am unrhyw estyniad ar gontract (Para 10.8). | Yn ei hanfod, parhad/estyniad ar y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 oedd y contract a ddyfarnwyd i RKC Associates ym mis Mehefin 2015. Fodd bynnag, roedd gwerth yr estyniad yn uwch na £75,000 ac yn fwy na 50% o werth y contract a ddyfarnwyd ym mis Tachwedd 2014. Ni chynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer y naill gontract na'r llall. |
| I gyd-fynd â phob gwahoddiad i dendro dylid cyflwyno telerau ac amodau safonol y Bwrdd Iechyd, a'r sail ar gyfer gweithrediadau busnes y Bwrdd Iechyd â'r contractwr. Lle bo'n briodol, gall uwch swyddogion caffael greu contract wedi'i gynllunio'n arbennig, ac ynddo gyngor cyfreithiol priodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyllid. (Atodlen 1 Para 5.4) | Roedd y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu 'Amodau Contract GIG Cymru ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau' ond ni ddefnyddiwyd y rhain. Llofnododd y Prif Swyddog Gweithredu gontractau ar ran y Bwrdd Iechyd, a oedd wedi cael eu drafftio gan Ms Chana o RKC Associates. Ni ofynnwyd am gyngor oddi wrth Adrannau Caffael neu Adrannau Cyfreithiol y Bwrdd Iechyd cyn llofnodi'r contractau hyn. |
| Ym mhob dogfen gontract dylid cynnwys cymal i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd hawl i ganslo'r contract ac adennill swm unrhyw golled sy'n deillio o'r weithred honno o ganslo gan y contractwr, os yw'r tendrwr wedi cydgynllwynio ag eraill wrth baratoi ei dendr, neu os yw wedi cynnig, rhoi, neu gytuno i roi unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath i unrhyw un fel cymhelliad neu wobr. (Atodlen 1 Para 13.2) | Drafftiwyd y contractau yr ymrwymwyd iddynt ag RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 gan RKC Associates, ac nid oedd y contractau hyn yn cynnwys cymalau i atal cydgynllwynio. |

| Gofyniad SFI | Y broses a ddilynwyd wrth ddyfarnu contractau i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015 |
|---|---|
| Cyn i unrhyw swyddog ymrwymo i [drafodaethau cyn tendro], dylid gofyn am gyngor yr adran gaffael a rhoi cyfle i'r adran honno hefyd fod â rhan mewn unrhyw drafodaeth. (Atodlen 1 Para 6.2) | Cyfarfu Prif Swyddog Gweithredu a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd â Ms Chana, perchennog RKC Associates, fymryn cyn dyfarnu contract i RKC Associates ym mis Tachwedd 2014. Ni chadwyd cofnod o'r trafodaethau a gynhaliwyd, ni ofynnwyd am gyngor yr Adran Gaffael cyn cynnal y cyfarfod, ac ni wahoddwyd yr Adran Gaffael i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. |
| Os bydd unrhyw anawsterau'n codi wrth ddehongli neu gymhwyso unrhyw SFIs, dylid gofyn am gyngor Ysgrifennydd y Bwrdd neu'r Cyfarwyddwr Cyllid cyn gweithredu. (Para 1.1.4. | Ni ofynnwyd am gyngor Ysgrifennydd y Bwrdd na'r Cyfarwyddwr Cyllid ynghylch dehongli neu gymhwyso'r SFIs wrth ymrwymo i gontract ag RKC Associates. |
| Mae'n rhaid adrodd manylion llawn unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â'r SFIs hyn, gan gynnwys esboniad o'r rhesymau a'r amgylchiadau, wrth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddechrau, a byddant hwythau'n gofyn i'r Pwyllgor Archwilio roi ystyriaeth ffurfiol i'r materion dan sylw a chynnig camau gweithredu i'r Bwrdd. Y mae dyletswydd ar bob aelod o'r Bwrdd a swyddogion y Bwrdd Iechyd i adrodd wrth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Bwrdd am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio, cyn gynted ag y cânt wybod am unrhyw amgylchiadau na adroddwyd amdanynt yn flaenorol. (Para 1.2.1) | Ni chafodd yr achosion o ddiffyg cydymffurfio â SFIs, a nodir yn y tabl hwn, eu hadrodd wrth Ysgrifennydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pwyllgor Archwilio na'r Bwrdd. |

# Atodiad 4 – Adolygiad Trysorlys Ei Mawrhydi o drefniadau treth penodeion sector cyhoeddus - Crynodeb o'r argymhellion

Mewn adrannau llywodraeth ganolog a'u cyrff hyd braich, mae'r adolygiad yn argymell y canlynol ar gyfer pob ymrwymiad newydd neu bob achos o adnewyddu contract:

- dylai aelodau bwrdd ac uwch swyddogion a chanddynt gyfrifoldeb ariannol sylweddol fod ar gyflogres y sefydliad, oni cheir amgylchiadau eithriadol - a phryd hynny dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r trefniadau - ac ni ddylai eithriadau felly fodoli am gyfnod hwy na chwe mis;
- dylai ymrwymiadau hwy na chwe mis, am gyfradd ddyddiol o fwy na £220, gynnwys darpariaethau contract sydd yn galluogi'r adran i geisio sicrwydd ynghylch ymrwymiadau treth incwm a NICS y sawl y mae'n ymrwymo i gontract ag ef/hi - a therfynu'r contract os na roddir y sicrwydd hwnnw; a
- dylid gweithredu'r mesurau hyn cyn pen tri mis - a monitro eu gweithrediad ar ôl blwyddyn, gan adrodd yn ôl wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet; ac os daw i'r amlwg nad yw yr un adran wedi cadw at y rheolau hyn, bydd cosbau'n cael eu gweithredu - gan ostwng cyllidebau adnoddau adrannol hyd at bum gwaith y taliad dan sylw.

Dylai adrannau hefyd geisio cymhwyso'r egwyddorion hyn i gontractau presennol - yn amodol ar sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr - ac adrodd wrth y Senedd ar y canlyniad yn rhan o broses adroddiad blynyddol a chyfrifon 2012-13.

Bydd yr Ysgrifenyddion Gwladol ar gyfer Iechyd ac Addysg hefyd yn ystyried sut i ddatblygu egwyddorion y dull hwn yn sefydliadau'r GIG ac mewn ysgolion nas cynhelir y mae'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus yn berthnasol iddynt.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru